BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

# Tuag at strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i Gymru

Comisiynwyd gan British Council Cymru a'i gynhyrchu gan
Dr Stuart Murray a Gavin Price o Brifysgol Bond, Awstralia

**Hydref 2020**



wales.britishcouncil.org

## British Council Cymru

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Rydym yn gwneud hyn drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig a'r gwledydd rydym yn gweithio gyda nhw – rydym yn newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin hyder. Rydym yn gweithio gyda thros 100 o wledydd ym meysydd y celfyddydau a diwylliant, Saesneg, addysg a'r gymdeithas sifil. Llynedd, ymgysyllton ni â mwy na 75 miliwn o bobl yn uniongyrchol a 758 miliwn o bobl i gyd, gan gynnwys cysylltiadau ar-lein, darllediadau a chyhoeddiadau. Sefydlwyd y British Council ym 1934 ac rydym yn elusen yn y Deyrnas Unedig a gaiff ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol ac yn gorff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

Gwefan: **wales.britishcouncil.org**

Twitter: **@BCouncil_Wales**

Facebook: **www.facebook.com/BritishCouncilWales**

## Stuart Murray

Mae Stuart Murray yn Athro Cyswllt mewn Cysylltiadau Rhyngwladol (Prifysgol Bond, Awstralia), yn Gymrawd Byd-eang o'r Academi Chwaraeon (Prifysgol Caeredin), ac yn Olygydd Cyswllt i'r cyfnodolyn Diplomacy and Foreign Policy (Brill). Mae'n arbenigwr ar ddiplomyddiaeth draddodiadol, arloesol a chwaraeon, mae ganddo dros 34 o gyhoeddiadau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, ac mae'n cynghori llywodraethau a gweithredwyr anwladwriaethol yn rheolaidd.

Twitter: **@StuarMurray**

## Gavin Price

Cymro yw Gavin Price ac ymgynghorydd annibynnol sy'n canolbwyntio ar ddiplomyddiaeth chwaraeon a chysylltiadau diwylliannol rhyngwladol. Mae hefyd yn ymgeisydd PhD sy'n ysgrifennu am Ddiplomyddiaeth Chwaraeon: cenhedloedd bach ag ôl-traed chwaraeon mawr, ac mae'n Diwtor Cyswllt ar raglen Meistr Diplomyddiaeth Fyd-eang yn SOAS Prifysgol Llundain. Bu'n gweithredu'n ddiweddar fel Arweinydd Masnach Ryngwladol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a chyn hynny bu'n gweithio i'r British Council, Banc Canolog Ewrop, Prifysgol Melbourne, Prifysgol Genedlaethol Awstralia a Llywodraeth Awstralia.

Twitter: **@GavinMPrice**

# Cynnwys

Prif negeseuon 4
Diolchiadau 5
Rhagair 6
Cyflwyniad 7

Adran un: fframio diplomyddiaeth chwaraeon
1.1 Cyd-destun a diffiniad 8
1.2 Manteision diplomyddiaeth chwaraeon 9
1.3 Ochr dywyll diplomyddiaeth chwaraeon 9

Adran dau: ymagweddau tuag at ddiplomyddiaeth chwaraeon – adolygiad o arferion gorau
2.1 Seland Newydd: cenedl fach ag ôl troed chwaraeon mawr 10
2.2 Cenhedloedd sofran: mega-ddigwyddiadau, yr uwchgynhadledd chwaraeon anffurfiol a llysgenhadon chwaraeon 12
2.3 Gwladwriaethau sofran sydd â strategaethau diplomyddiaeth chwaraeon: Unol Daleithiau America, Awstralia a Ffrainc 14
2.4 Cyfundrefnau rhynglywodraethol a chwaraeon ar gyfer datblygu a heddwch 17
2.5 Cyrff cyhoeddus anadrannol a gweithredwyr anwladwriaethol 18

Adran tri: Cymru, chwaraeon ac ymgysylltiad rhyngwladol
3.1 Adolygiad llenyddiaeth cryno: Cymru, chwaraeon ac ymgysylltiad rhyngwladol 20
3.2 Medalau aur, pencampwyr ac arwyr: ddoe a heddiw 21
3.3 Chwaraeon Cymru 23
3.4 Diplomyddiaeth chwaraeon Cymru 24

Adran pedwar: adolygiad beirniadol o Gymru, chwaraeon ac ymgysylltiad rhyngwladol
4.1 Methodoleg: gwaith maes a dadansoddiad thematig 26
4.2 Gwybodaeth: yr ymchwil pellach sydd ei angen 27
4.3 Cydberthnasau yn yr ecosystem chwaraeon 29
4.4 Crynodeb o waith maes 30

Adran pump: Symud tuag at strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon
5.1 Mesur a digideiddio'r ased 32
5.2 Ymchwil 33
5.3 Ffurfio gweithgor cenedlaethol 33
5.4 Dysgu gan arferion gorau 34
5.5 Mynegi gwerth diplomyddiaeth chwaraeon i lywodraeth 35
5.6 Mynegi gwerth diplomyddiaeth chwaraeon i faes chwaraeon 35
5.7 Enwi capten tîm 36
5.8 Sicrhau cwpl o rediadau cynnar 37
5.9 Cofio Tîm Prydain Fawr 38

Adran chwech: y chwiban olaf 40

Troednodiadau 42

# Prif Negeseuon

- O ystyried Strategaeth Ryngwladol 2020 Llywodraeth Cymru, dyma'r adeg iawn i ofyn pa ran mae chwaraeon yn ei chwarae yng ngweithgareddau diplomyddol ac ymgysylltu rhyngwladol Cymru.
- Mae diplomyddiaeth chwaraeon yn cynnig cyfle unigryw i Gymru arwain y ffordd o ran polisi is-wladwriaethol arloesol. A ddylai Llywodraeth Cymru fod yn manteisio arno?
- O ran asedau grym cymell tawel chwaraeon, mae Cymru yn sefyll ar drysor gwirioneddol sydd heb ei gyffwrdd o ddoniau, adnoddau a chyfleoedd.
- Mae natur, cyfrifoldebau a grym diplomyddiaeth a chwaraeon yn newid. Mae angen i Gymru feddwl am yr hyn mae bod yn genedl chwaraeon sy'n edrych allan ar y byd yn ei olygu heddiw.
- Mae cydosod amcanion polisi tramor gyda chwaraeon yn ddull risg isel, cost cymharol isel a phroffil uchel o godi proffil rhyngwladol Cymru, gan dyfu economi Cymru a sefydlu Cymru fel cenedl gyfrifol ar lefel fyd-eang.
- Mae chwaraeon yn rhyngweithio gydag asedau cymell tawel eraill ac yn gallu eu cynyddu. Gall chwaraeon fod yn ffordd o arddangos gwerthoedd cenedl, a'i synnwyr o gyfrifoldeb byd-eang.
- Gallai Cymru ymuno â rhestr gynyddol o wledydd sydd â strategaethau, swyddfeydd, swyddogion, deorfeydd a hybiau diplomyddiaeth chwaraeon. Drwy wneud hynny, Cymru fyddai'r llywodraeth is-wladwriaethol gyntaf yn y byd i fod â strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon benodol.
- Mae cynyddu gwaith partneriaeth rhwng y llywodraeth, y diwydiant chwaraeon, asiantaethau rhyngwladol Cymru a gwledydd Prydain a phobl Cymru eu hunain yn hanfodol er mwyn datgloi potensial diplomyddiaeth chwaraeon Cymru.

# Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i bawb a roddodd eu hamser a'u cyngor yn ystod gwaith maes y prosiect hwn. Yn benodol, rydym yn ddiolchgar i'r 115 o gynrychiolwyr o gyrff rhanddeiliaid chwaraeon a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws, cyfweliadau ac arolygon ar-lein.

At hynny, rhoddodd Ifona Deeley, Heulwen Jones, y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol ac eraill yn Llywodraeth Cymru lawer o gymorth, ynghyd ag aelodau'r Bwrdd Cynghori: yr Athro Bela Arora (Prifysgol De Cymru), yr Athro Caitlin Byrne (Sefydliad Asia Griffith), yr Athro Grant Jarvie (Prifysgol Caeredin), Dr. Simon J. Rofe (Darllenydd, SOAS, Prifysgol Llundain), Dr. Claire Jenkin (Prifysgol Swydd Hertford), Ms. Verity Postlethwaite (Prifysgol Caerwrangon), a Dr. Gillian Otlet (Llywodraeth Cymru).

Yn olaf, ni fyddai'r prosiect hwn wedi bod yn bosib heb ysbrydoliaeth, cefnogaeth ac ysbryd diflino ein cydweithwyr yn British Council Cymru: Chris Lewis, Rosa Bickerton, Walter Ariel Brooks a Jenny Scott.



Tîm pêl-droed menywod Cymru yn chwarae yn erbyn Rwsia - Gêm Ragbrofol Cwpan y Byd FIFA, yn Stadiwm Casnewydd, Mehefin 2018.
Llun: Influencial Photography.

# Rhagair
## gan yr Athro Laura McAllister

Yng nghylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig, Agenda, ysgrifennais am yr angen i Gymru sefydlu'n well sut rydym yn cyfleu ein hunain ar y llwyfan byd-eang. Trafodais pa elfennau o'n hanes hir a'n hunaniaeth genedlaethol y gellid eu defnyddio i gael buddion y cyfeirir atynt fel "grymoedd cymell tawel". Wrth gwrs, cyfeiriais at ein dwyieithrwydd a'r heniaith rydyn ni mor falch ohoni (sydd, drwy wyrth, wedi goroesi er gwaetha pawb a phopeth), ein tirlun naturiol anhygoel gyda'i botensial twristiaeth eang – potensial nad ydym wedi manteisio arno yn aml – a'n cerddoriaeth, ein barddoniaeth a'n diwylliant ehangach. Fodd bynnag, wrth feddwl am ein hasedau cryfaf, mae'n anodd meddwl y tu hwnt i chwaraeon. Mae fy ngyrfa fy hun ym maes chwaraeon, gwleidyddiaeth a'r byd academaidd wedi fy argyhoeddi bod chwaraeon yn arf grymus nad yw wedi'i ddefnyddio ddigon, sydd nid yn unig yn gallu gwella bywydau pobl, ond sydd hefyd yn cyfrannu at faes chwarae mwy cynhwysol i bawb. Gall hefyd fod yn llwyfan ar gyfer hyrwyddo proffil Cymru ledled y byd.

O chwaraeon cymunedol a llawr gwlad i'n perfformiadau ysbrydoledig yn Ewros 2016 a Chwpan Rygbi'r Byd yn 2019, a'n pencampwyr sydd wedi ennill medalau aur yng Ngemau'r Gymanwlad, y Gemau Paralympaidd a'r Gemau Olympaidd, mae chwaraeon yn rhan annatod o'n DNA. Chwaraeon yw'r glud sy'n cadw'n cenedl ynghyd. Ein mabolgampwyr yw ein llysgenhadon gorau. Maen nhw'n cynrychioli popeth sy'n dda am Gymru. Mae chwaraeon yn cyfathrebu ac yn cyfnerthu ein gwerthoedd, fel rhagoriaeth, teulu, gwyleidd-dra, a chyfeillgarwch, gyda thamaid o ddawn a mymryn o hwyl hefyd, wrth gwrs.


Mae chwaraeon yn creu cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ledled y byd. Maent yn adeiladu'r rhwydweithiau anffurfiol sy'n creu ac yn cryfhau cydberthnasau ffurfiol a swyddogol. Nid yn unig y mae chwaraeon yn chwarae rhan allweddol wrth fynegi pwy ydyn ni, ond hefyd yr hyn rydyn ni'n sefyll drosto yn wleidyddol, fel partner masnachu agored a hygyrch, fel gwlad gyfrifol yn fyd-eang sydd â phobl gynhwysol a chroesawgar. Fodd bynnag, ers yn rhy hir mae hanes cyfosod amcanion chwaraeon Cymru gyda'i hamcanion cymdeithasol, masnachol neu bolisi tramor wedi bod yn llawn cyfleoedd wedi'u colli a diffyg buddsoddiad o ran amser, ymdrech ac adnoddau.

Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i newid yr hanes yma. Mae'r tîm ymchwil wedi cynnal archwiliad ac adolygiad sylweddol o natur, capasiti a photensial diplomyddiaeth chwaraeon yng Nghymru. Maent wedi ymgysylltu gyda thros gant o randdeiliaid allweddol ar draws sectorau chwaraeon Cymru, gwledydd Prydain a'r byd, ynghyd â'r llywodraeth, y byd academaidd a thu hwnt.

Maent wedi chwilio'r byd am y llenyddiaeth a'r arferion polisi gorau, ac maent wedi cyflwyno cyfres o argymhellion beiddgar sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylai'r adroddiad annog rhagor o gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a diwydiant chwaraeon Cymru ar fentrau diplomyddiaeth chwaraeon newydd mwy cyhyrog. Ar ôl ugain mlynedd o ddatganoli, mae'n bryd i Gymru edrych allan yn hyderus ac ymgysylltu'n well gyda'r byd i gyd. Mae cyfuno ein Strategaeth Ryngwladol newydd gyda llwyddiant byd-eang ein mabolgampwyr, ein timau a'n gweinyddwyr yn ffordd rymus o gyflawni hynny.

Os ydyn ni o ddifri ynghylch manteisio ar chwaraeon fel ein prif rym cymell tawel, mae'n hanfodol cynnal y momentwm a sefydlir gan yr adroddiad hwn. Mae angen i ni barhau â'r trafodaethau ac adeiladu'r isadeiledd angenrheidiol i drosi syniadau da yn gynnydd cynaliadwy ac yn ganlyniadau mesuradwy. Dylai'r adroddiad hwn nodi dechrau cyfnod newydd ac arloesol o ran diplomyddiaeth chwaraeon Cymru.

Rwy'n llwyr argyhoeddedig fod gan Gymru'r cynhwysion i ddod yn genedl diplomyddiaeth chwaraeon lwyddiannus. Mae'n deall y diwydiant, mae ganddi'r medalau, y llwyddiant a'r cysylltiadau cywir, ochr yn ochr ag angerdd am chwaraeon sy'n rhan o wead ein cenedl. Y cyfan sydd ar goll yw capteiniaid tîm i'n hyrwyddo, noddwr, a chynllun gêm go iawn. Rydyn ni'n gwybod sut mae ennill ar y cae. Nawr, mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n ennill oddi ar y cae.



**Yr Athro Laura McAllister, CBE**

Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Is-Gadeirydd Pwyllgor Pêl-droed Menywod UEFA.

Cadeirydd Oriel Anfarwolion Chwaraeon Cymru.

Cymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru a Chymdeithas Frenhinol y Celfyddydau.

# Cyflwyniad

Term newydd sy'n disgrifio hen arfer yw diplomyddiaeth chwaraeon: grym unigryw chwaraeon i ddod â phobl, cenhedloedd a chymunedau'n agosach drwy gyd-gariad tuag at weithgareddau corfforol. Mae'n faes astudio newydd ac yn faes o arfer cynyddol ar gyfer llywodraethau ledled y byd. Gellir ei ddiffinio fel defnydd strategol o chwaraeon i feithrin cydberthnasau a chynyddu proffil, polisi a pha mor ddeniadol yw lle ar gyfer buddsoddi, astudio, ymweld neu fasnachu. Mae'r term yn cyfleu dull mwy cynhwysol o lunio polisi: llywodraethau, gweithredwyr anwladwriaethol a sefydliadau chwaraeon yn cydweithio i gael canlyniadau cadarnhaol i bawb.

Mae diplomyddiaeth chwaraeon hefyd yn ymateb i natur newidiol grym a chyfrifoldeb yn yr unfed ganrif ar hugain, yn enwedig ar gyfer llywodraethau datganoledig a rhanbarthol.[1] Yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft, mae grym gorfodi, amddiffyn, a pholisi tramor yn dal i fod yn nwylo San Steffan a Whitehall. Fodd bynnag, mae gan Gaerdydd, Caeredin a Belffast bob un ddiwylliannau unigryw, blaenoriaethau rhyngwladol a lefel sylweddol o ymreolaeth pan ddaw at rym cymell tawel a pharaddiplomyddiaeth; neu "weithgareddau rhyngwladol a chapasiti polisi tramor unedau gwleidyddol is-wladwriaethol a llywodraethau rhanbarthol."[2] Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ***Baromedr Cymell Tawel Cymru***[3] 2018 a ***Strategaeth Arddangos Celfyddydau Cymru yn Rhyngwladol***[4], a dyma drydedd rhan y gyfres ***Dychmygu Dyfodol Byd-eang Cymru*** a gomisiynwyd gan British Council Cymru, sy'n ategu'r sgwrs am asedau grym cymell tawel Cymru a'u gallu i hyrwyddo uchelgeisiau rhyngwladol Cymru.

Quite simply, sport creates informal opportunities to build formal relationships, and generates access and influence. Sports diplomacy unlocks economic opportunity, catalyses international development and creates pathways for student, spectator, athlete, coaching exchanges. It also provides strategic direction, coherence and sustainability, integrating international sport and governance systems.
systemau llywodraeth a chwaraeon rhyngwladol.

The argument for a Welsh sports diplomacy strategy is a compelling one. In terms of sporting soft power assets, Wales possesses an embarrassment of riches: Tour de France winner Geraint Thomas carrying Y Ddraig Goch (the Welsh flag) along the Champs-Élysées in 2018, Dame Tanni Grey-Thompson named by the BBC as an icon of the twentieth century, the Welsh men's football team breaking records and making friends at Euro 2016, Jess Fishlock winning the UEFA women's Champions League twice with FFC Frankfurt (2015) and Olympique Lyonnais (2019), and the Welsh rugby team's 2019 Six Nations Grand Slam champions, during the Japan Rugby World Cup 2019. These are just some examples of the global profile generated for Wales through its sporting excellence and proud sporting culture.
grëwyd i Gymru drwy ei mabolgampwyr, ei llwyddiant, a'i diwylliant chwaraeon balch.

Furthermore, following the UK's decision to leave the EU, the time is right to re-evaluate Wales' foreign policy; to play to our strengths and the things that make us stand out: our people, our creativity, language, culture and, of course, our sport.
ymadael â'r ... tramor; ... ni yn y ... ein baner, ein creadigrwydd, ein hiaith, ein diwylliant, ac wrth gwrs, ein chwaraeon.



Geraint Thomas yn dathlu ei fuddugoliaeth yn y Tour de France yn 2018. Caerdydd, Awst 2018. Llun: Ian Fairclough

# Adran 1
# Fframio diplomyddiaeth chwaraeon

**Mae'r adran hon yn gosod y cyd-destun ac yn diffinio'r term diplomyddiaeth chwaraeon, ac yn rhoi adolygiad llenyddiaeth cryno. Mae hefyd yn disgrifio manteision a gwendidau defnyddio chwaraeon fel arf diplomyddol.**

## 1.1 Cyd-destun a diffiniad

Nid yw cysylltiadau rhyngwladol bellach yn faes sydd wedi'i gyfyngu i ddiplomyddion proffesiynol. Mae diplomyddiaeth effeithiol yn yr unfed ganrif ar hugain yn ymdrech luosog, sy'n cynnwys sefydliadau cymdeithas sifil, corfforaethau amlwladol, sefydliadau rhynglywodraethol, a hyd yn oed "enwogion diplomyddol" dylanwadol.[5] Yn yr amgylchedd dynamig yma, mae cerddoriaeth, celf, chwaraeon a hyd yn oed bwyd yn ieithoedd grym cymell tawel rhyngwladol sy'n hwyluso cyswllt ymhlith rhanddeiliaid amrywiol gartref a thramor. Fel y mae adroddiadau'r British Council, *Baromedr Grym Cymell Tawel Cymru 2018* a *The Sources of Soft Power 2020: How perceptions determine the success of nations*[6] yn ei nodi, mae ffactorau fel chwaraeon, bwyd, diwylliant, gwerthoedd diwylliannol-gymdeithasol a gwleidyddol, cyfeillgarwch, cyfrifoldeb byd-eang ac addasrwydd i fyw, i gyd yn creu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol, masnach, a brandio cenedl.

Mae diplomyddiaeth chwaraeon yn canolbwyntio ar feysydd lle mae chwaraeon, gwleidyddiaeth a chydberthnasau rhyngwladol yn gorgyffwrdd. Nid yw hyn yn ddim byd newydd. Maen nhw wedi bod yn gorgyffwrdd ers yr Olympiad Hynafol (776 CC i 393 OC), Uwchgynhadledd Maes y Brethyn Aur (1520), diplomyddiaeth tennis bwrdd rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina (1971), neu'r ddiplomyddiaeth criced a ddefnyddiwyd gan India a Phacistan i gadw llinell gyfathrebu'n agored yn ystod tensiynau. Dim ond llond llaw o blith degau o enghreifftiau o "gemau o fewn gemau" yw'r rhain, sef rhyngchwarae'r byd chwaraeon gyda gwleidyddiaeth fyd-eang.[7]

Yn fwy diweddar, mae'r Unol Daleithiau wedi defnyddio chwaraeon i ategu eu rhaglenni cymorth rhyngwladol, defnyddiodd Tsieina Gemau Olympaidd Beijing 2008 i gyfleu delwedd o bwerdy economaidd blaengar, ffyniannus, gwaraidd, dinesig, modern a bydol, ac yn 2015, lansiodd Llywodraeth Awstralia strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon gynta'r byd. Gellir diffinio'r don newydd hon o arfer fel;

> *...defnydd ymwybodol a strategol o fabolgampwyr a digwyddiadau chwaraeon gan weithredwyr gwladwriaethol ac anwladwriaethol i ymgysylltu, hysbysu a chreu delwedd ffafriol ymhlith sefydliadau a'r cyhoedd dramor, i siapio eu canfyddiadau mewn ffordd sy'n (fwy) ffafriol i amcanion y grŵp sy'n anfon.*[8]

Mae chwaraeon yn chwarae rhan gynyddol sylweddol mewn cysylltiadau rhyngwladol rhwng gwladwriaethau, gweithredwyr anwladwriaethol, a phobl o gwmpas y byd.

## 1.2 Manteision diplomyddiaeth chwaraeon

Caiff llywodraethau eu denu at chwaraeon fel arf diplomyddol am sawl rheswm. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Mae diplomyddiaeth chwaraeon yn ddull "risg isel, cost isel, ac yn aml, proffil uchel."[9]
- Gall cydberthnasau anffurfiol a sbardunwyd drwy chwaraeon arwain at gydberthnasau ffurfiol a hirdymor.
- Mae diplomyddiaeth chwaraeon yn meithrin cyfeillgarwch, hoffter ac ymddiriedaeth, gan amlygu diwylliant a gwerthoedd cenedl i gynulleidfaoedd cyhoeddus eang dramor, ynghyd â llywodraethau.
- Mae'r cysyniad yn arloesol ac yn ennyn diddordeb y cyhoedd mewn materion rhyngwladol gartref a thramor.
- Mae chwaraeon yn denu diddordeb. Mae'n gyfrwng deniadol a phoblogaidd ar gyfer cynnal diplomyddiaeth, gyda swyddogion yn awyddus i fynychu digwyddiadau gyda chynulleidfaoedd mawr ar gyfer ymgyrchoedd diplomyddiaeth gyhoeddus.
- Mae mentrau diplomyddiaeth chwaraeon pwrpasol yn rhoi mantais gymharol i lywodraethau dros ranbarthau neu wledydd tebyg nad ydynt yn defnyddio chwaraeon fel arf diplomyddol.
- Mae diplomyddiaeth chwaraeon yn creu partneriaethau cynaliadwy rhwng y llywodraeth a sefydliadau chwaraeon cenedlaethol, ac yn annog canlyniadau polisi sydd o fudd i bob ochr.
- Mae gan lawer o sefydliadau chwaraeon rwydweithiau rhyngwladol aeddfed ac eang eisoes. Mater o gysoni diddordebau yw hyn i lywodraeth.
- "Diplomyddion mewn tracwisg" yw llawer o fabolgampwyr.[10] Maen nhw'n cynrychioli eu gwlad ar y cae. Pam ddim oddi ar y cae hefyd (i fod yn llysgenhadon dros eu gwlad, meithrin ymddiriedaeth a chynrychioli gwerthoedd – gosod y sylfeini ar gyfer cydberthnasau diplomataidd a busnes, er enghraifft)?
- Mae defnyddio strategaethau diplomyddiaeth chwaraeon yn cynyddu proffil rhyngwladol dinasoedd a rhanbarthau cenedl.

Mae'r manteision hyn yn cynyddu os oes gan y rhanbarth, cenedl neu wladwriaeth bresenoldeb, brand a chapasiti chwaraeon cryf. Mae Cymru, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos yn adran 3, wedi buddsoddi a datblygu sylfaen gref o ddoniau, diwylliant a chyfleusterau chwaraeon.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae unrhyw fanteision i gymdeithas neu economi Cymru yn rhai ar hap yn hytrach na'u bod yn rhan o strategaeth hirdymor sy'n gyson ag amcanion polisi Cymru neu Brydain yn ehangach. Os yw Cymru'n dymuno defnyddio chwaraeon i godi ei phroffil rhyngwladol, neu i roi hwb i fuddsoddiad, twristiaeth a masnachu, mae'n rhaid iddi fod â strategaeth neu ddull cymhwysol ar gyfer diplomyddiaeth chwaraeon.

## 1.3 Ochr dywyll diplomyddiaeth chwaraeon

Er cydbwysedd, mae angen i'r rhai sydd â diddordeb mewn defnyddio chwaraeon fel arf diplomyddol ystyried ei ochr dywyll. Mae gan chwaraeon gysylltiad â thrais, terfysgaeth, jingoistiaeth, ideoleg, twyllo, defnydd o gyffuriau, gamblo a llygredd. Mae rhai cenhedloedd wedi croesi'r llinell o ran chwarae teg. Er enghraifft, honnodd adroddiad gan yr Asiantaeth Ryngwladol i Atal Camddefnyddio Cyffuriau mewn Chwaraeon (WADA) yn 2016 bod dros 1,000 o athletwyr Rwsia ar draws dros 30 o gampau yn "chwarae rhan mewn camddefnyddio cyffuriau drwy nawdd y wladwriaeth neu wedi cael budd ohono rhwng 2011 a 2015."[11] Ym mis Rhagfyr 2019, gwaharddodd WADA Rwsia o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr am bedair blynedd ar gyhuddiad o ymyrryd ag adroddiadau'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau.

Gall digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol gael effeithiau sydd i'r gwrthwyneb i'r bwriad, a hynny i raddau catastroffig ar adegau. Er enghraifft, roedd Brasil am i Gwpan y Byd 2014 a Gemau Olympaidd Haf 2016 ddangos gwlad fodern a ffyniannus i'r byd. Yn hytrach, bu'r byd yn dyst i drychineb ddiplomyddol gyhoeddus. Adroddodd cyfryngau'r byd yn helaeth ar gyllidebau'n mynd allan o reolaeth, terfysgoedd dinesig, a halogi cyrsiau dŵr y Gemau Olympaidd. Yn ogystal, cafodd Arlywydd Brasil, Dilma Rousseff, ei huchelgyhuddo yn ystod Gemau Rio am drin cyfrifon y llywodraeth yn anghyfreithlon, a effeithiodd ymhellach ar frand y genedl.

Gall ymddygiad rhai cynrychiolwyr chwaraeon rhyngwladol beri embaras i genedl yn achlysurol hefyd. Mae'n ddiwydiant proffidiol a chystadleuol iawn, sy'n cyflwyno risg o dwyllo a barusrwydd gan y cyfranogwyr. Yn 2012, cafodd y beiciwr Lance Armstrong ei wahardd o'r gamp am oes, a chollodd ei record o saith teitl Tour de France a chael ei feirniadu'n gyhoeddus. Wrth siarad am yr "argyfwng mwyaf" i'r gamp ei wynebu erioed, meddai Arlywydd yr Undeb Beicio Rhyngwladol, Pat McQuaid, "does dim lle i Lance Armstrong ym myd beicio … mae'n haeddu cael ei anghofio."[12] Yn 2018, cafodd tri chwaraewr criced o Awstralia, gan gynnwys y capten Steve Smith, eu dal yn ymyrryd â'r bel yn ystod taith yn Ne Affrica, a'u cyhuddo o ddod â gwarth ar y gêm, a chawsant eu gwahardd o griced rhyngwladol a domestig am flwyddyn. Disgrifiodd Prif Weinidog Awstralia ar y pryd, Malcolm Turnbull, y sgandal fel "siomedigaeth annisgwyl sy'n anodd ei chredu."[13]

Mae'r enghreifftiau hyn yn ein hatgoffa y gall pethau fynd o chwith ym maes chwaraeon rhyngwladol, a bod hynny'n digwydd yn aml. Yn ffodus, fodd bynnag, eithriadau yw'r cyfnodau tywyll yma, ac nid y rheol. Mae chwaraeon yn gwneud llawer mwy o les na niwed i gysylltiadau rhyngwladol.

# Adran 2
# Ymagweddau tuag at ddiplomyddiaeth chwaraeon – adolygiad o arferion gorau

**Mae'r adran hon yn disgrifio arfer diplomyddiaeth chwaraeon ac yn manylu ar wahanol ymagweddau y mae cenhedloedd bach ag ôl troed chwaraeon mawr, cenhedloedd sydd â strategaethau diplomyddiaeth chwaraeon sefydledig, cyfundrefnau rhynglywodraethol, a gweithredwyr anwladwriaethol, wedi'u defnyddio i sicrhau canlyniadau polisi tramor. Mae'r astudiaethau achos hyn yn helpu i roi sylwedd i'r cysyniad o ddiplomyddiaeth chwaraeon. Os yw Cymru am fuddsoddi mewn chwaraeon fel cyfrwng ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol, mae'r rhain yn cynnig enghreifftiau o arferion gorau i ddysgu ganddynt ac i'w hosgoi.**

## 2.1 Seland Newydd: cenedl fach ag ôl troed chwaraeon mawr

Fel cenedl fach sydd ag oddeutu pum miliwn o bobl, mae Seland Newydd wedi cerfio cilfach syfrdanol iddi hi ei hun fel dinesydd byd-eang da sydd â phroffil allanol cadarnhaol. Mae penderfyniad Llywodraeth Seland Newydd i integreiddio mentrau diplomyddiaeth chwaraeon i'w rhaglen ehangach o ymgysylltiad rhyngwladol yn ganolog i'w brand rhyngwladol. Yn bennaf, mae crys rygbi'r undeb y Crysau Duon yn un o symbolau diwylliannol mwyaf adnabyddus y byd chwaraeon, yn enwedig ochr yn ochr â'r Haka (osgo hynafol a dawns ryfel Māori Seland Newydd). Mae'r dreftadaeth gyfoethog wedi'i defnyddio i hyrwyddo'r genedl fel chwaraewr croesawgar, hwyliog a chynhwysol ar y llwyfan rhyngwladol.

Enghraifft ddiweddar o bartneriaeth rhwng y llywodraeth, masnach a chwaraeon oedd eu fideo diogelwch ar gyfer hediadau Air NZ. Mae'r fideo deniadol hwn yn cynnwys tîm y Crysau Duon, staff Air NZ a chefnogwyr, ac fe'i rhyddhawyd cyn Cwpan Rygbi'r Byd 2019 yn Japan. Fel y dywedodd Jodi Williams, arbenigwr Brandio Byd-eang gydag Air NZ,

*Mae newid ein henw i 'Air All Blacks' yn ffordd hwyliog o ddangos ein cefnogaeth i'n bechgyn yn eu crysau duon. Mae ein pobl yn teimlo ymdeimlad mawr o falchder wrth hedfan y tîm o gwmpas y byd, ac mae'r ddau sefydliad yn dangos yn gyson i'r byd effaith mor fawr y gall cenedl fach ei chael ar y llwyfan byd-eang.*[14]

Mae enghreifftiau grymus eraill o ddiplomyddiaeth chwaraeon Seland Newydd ar waith yn cynnwys:[15]

- Integreiddio chwaraeon i'r broses lobïo i gael sedd ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Croesawodd diplomyddion Seland Newydd grŵp o Lysgenhadon yn ystod gêm yn 2013 rhwng Māori'r Crysau Duon ac Eryrod yr Unol Daleithiau yn Philadelphia.
- Manteisio ar bartneriaeth y Crysau Duon gydag UNICEF (2014) i ddod â dau frand byd-eang at ei gilydd i godi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer plant bregus. Roedd hyn yn cynnwys aelodau o dîm y Crysau Duon, Victor Vito a Ryan Crotty, yn croesawu diplomyddion a'u teuluoedd i ddigwyddiad ym mhencadlys y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd.
- Anfon dirprwyaeth o Senedd Seland Newydd i Tokyo yn 2018. Roedd y rhaglen yn cynnwys gwylio gêm brawf y Crysau Duon yn erbyn Japan ochr yn ochr â Seneddwyr Japan; ymgysylltu ag arweinwyr gwleidyddol, busnes a chwaraeon Japan; a chwrdd â chymuned y brifysgol leol i gefnogi mwy o gysylltiadau academaidd rhwng Japan a Seland Newydd.
- Chwarae gêm bêl-droed ryngwladol yn erbyn diplomyddion o Tsieina yn Shanghai yn 2012 i nodi 40 mlynedd o gysylltiadau diplomyddol rhwng y ddwy genedl. Cyn y gêm hon, chwaraeodd tîm o ddiplomyddion Seland Newydd gêm gyfeillgar yn erbyn Tsieina, gyda'r prif nod o ddefnyddio diplomyddiaeth pêl-droed fel llwyfan i drafod gwella cysylltiadau a chyfleoedd ar gyfer masnach a mentrau traws-ddiwylliannol rhwng Tsieina a Seland Newydd.[16]

Er nad oes gan Seland Newydd strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon, mae gweithgareddau o'r fath yn rhan o ymagwedd newydd tuag at bolisi tramor i ranbarth y Môr Tawel. Yn 2018, cafodd y Weinyddiaeth Materion Tramor a Masnach (MFAT) werth NZ$150 miliwn (tua £73 miliwn) o gyllid gwario gweithredol ychwanegol dros bedair blynedd – a chynnydd o 30% mewn cyllid i raglen gymorth Seland Newydd. Mae buddsoddiad o'r fath yn galluogi Seland Newydd i weithredu eu rhaglen 'Pacific Reset' a "chryfhau eu hymdrechion i daclo materion blaenoriaeth fel newid hinsawdd yn y rhanbarth."[17] Bydd chwaraeon yn cael ei ddefnyddio i ategu ymdrechion polisi tramor diwygiedig, i greu rhwydweithiau, ac "i gynorthwyo ein partneriaid i wneud cynnydd tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig; i gefnogi pobl ifanc ar draws y rhanbarth gyda mynediad at wasanaethau iechyd, addysg a hyfforddiant; ac i hyrwyddo twf cynaliadwy a chynhwysol economïau'r Môr Tawel," yng ngeiriau Winston Peters, y Gweinidog Materion Tramor.[18]

Yn ogystal, bydd brandiau chwaraeon Seland Newydd yn cael eu defnyddio fel cyfryngau diplomyddiaeth gyhoeddus yn rhanbarth y Môr Tawel yn wyneb "presenoldeb cynyddol Tsieina yn y rhanbarth drwy ffurf ar ddiplomyddiaeth llyfr siec, sy'n cynnig benthyciadau ac yn adeiladu prosiectau isadeiledd allweddol mewn nifer o genedl-ynysoedd."[19] Nod yr ymagwedd newydd hon yw datblygu partneriaethau a chryfhau dylanwad gyda gwledydd o'r un anian fel Awstralia a Ffiji. O ystyried y cariad tuag at rygbi'r undeb yn Ynysoedd y Môr Tawel, a'r ffaith bod llawer o bobl yr ynysoedd wedi chwarae i'r Crysau Duon, mae rygbi yn cynnig cyfrwng i Seland Newydd ennyn diddordeb.

## 2.2 Cenhedloedd mwy: mega-ddigwyddiadau, yr uwchgynhadledd chwaraeon anffurfiol a llysgenhadon chwaraeon

Mae'r adran hon yn disgrifio gweithgareddau diplomyddiaeth chwaraeon cenhedloedd mawr. Er bod y rhain yn enghreifftiau o fentrau byd-eang a gefnogir gan gyllidebau sylweddol, gall Cymru ddysgu gwersi ganddynt. Nid yw'n anodd dychmygu uwchgynadleddau chwaraeon anffurfiol gyda diddordebau masnach yn Stadiwm Principality, er enghraifft. O ystyried ein hysbryd o arloesedd, a'n pobl gyfeillgar a chreadigol, gellid cynnal yr enghreifftiau hyn ar raddfa lai, gydag addasiadau a naws Gymreig.

Mae mega-ddigwyddiadau fel Gemau Olympaidd yr Haf a'r Gaeaf, Cwpan Rygbi'r Byd, neu Gemau'r Gymanwlad, yn cynnig ffenest siop i genhedloedd gwadd arddangos eu doniau athletaidd, eu gallu sefydliadol, eu diwylliant, eu gwerthoedd a'u hideoleg. Mae cyfle i gynnal digwyddiad o'r fath yn creu llwybrau sylweddol at ddiplomyddiaeth gyhoeddus.

Er enghraifft, aeth llywodraethau Tsieina (Gemau Olympaidd 2008), De Affrica (Cwpan Pêl-droed y Byd 2010) a Rwsia (Gemau Olympaidd y Gaeaf 2014 a Chwpan y Byd 2018) ati i ddefnyddio mega-ddigwyddiadau fel "ffyrdd cymharol hawdd o wella eu delwedd, eu hygrededd, eu statws, pa mor gystadleuol ydynt yn economaidd, a'u gallu i greu effaith ar y llwyfan rhyngwladol."[20] Mae miliynau o bobl yn gwylio dros gyfnod twrnamaint, ac os yw'r ddelwedd ddiplomyddol, y brand a'r neges wedi'u crefftio'n feddylgar, mae modd ymgysylltu a dylanwadu ar y cyhoedd dramor, heb sôn am y cyfleoedd masnachu sy'n codi. Mae'r un ddamcaniaeth yn berthnasol i ddigwyddiadau llai fel Gemau'r Gymanwlad, y mae'n haws – ac yn rhatach – gwneud cais amdanynt a'u cynnal, ond sy'n creu cyfleoedd tebyg.

Mae digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol hefyd yn arwain at uwchgynadleddau chwaraeon untro ac anffurfiol i wleidyddion, arweinyddion a phobl fusnes uchel eu proffil gwrdd. Yn ystod gêm derfynol Cwpan y Byd Brasil 2014 rhwng yr Almaen ac Ariannin, bu'r penaethiaid gwladwriaethau canlynol yn rhannu'r un ystafell VIP: Dilma Rousseff (Brasil), Angela Merkel (Yr Almaen), Ali Bongo Ondima (Gabon), Gaston Brown (Antigua a Barbuda), Vicktor Orban (Hwngari), Jacob Zuma (De Affrica), ac yn olaf, ond nid y lleiaf nodedig, Vladimir Putin (Rwsia). Creodd hyn gyfle ar gyfer sgyrsiau dwyochrog ac amlochrog ehangach, ynghyd ag ymgysylltu â'r digwyddiad ei hun – gêm ddiflas a ddaeth i ben gyda gôl gan yr Almaen yn yr amser ychwanegol. Mae'r feddylfryd yn debyg i fforymau diplomyddol anghonfensiynol eraill lle mae arweinwyr yn dod at ei gilydd (priodasau brenhinol, seremonïau agoriadol neu angladdau, er enghraifft): "waeth beth yw'r achlysur, yn aml mae trafodaethau a chyfarfodydd anffurfiol rhwng arweinwyr yn arwain at gytundebau ffurfiol rhwng diplomyddion."[21]

Yn yr un modd, aeth 120 o benaethiaid gwladwriaethau i seremoni agoriadol £27 miliwn Gemau Olympaidd Llundain yn 2012. Cyfeiriodd Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Datblygu Rhyngwladol hwn fel "magned ar gyfer buddsoddiad tramor gwerth uchel" a "digwyddiad rhwydweithio corfforaethol mwya'r byd"[22]. Roedd y rhaglen ddiplomyddol yn cynnwys defnyddio athletwyr Olympaidd Prydain fel llysgenhadon i ledaenu negeseuon 2012 yn fyd-eang, cyfres o ddigwyddiadau sector, dangosiadau masnachu parhaus a Llysgenhadaeth Busnes Prydain ar y safle.

Cynhaliwyd un o'r uwchgynadleddau mwyaf ingol yn ystod ymweliad Barack Obama â Chiwba yn 2016, ar y daith arlywyddol gyntaf i Havana ers taith Calvin Coolidge ym 1928. Ar ôl ymweliad tridiau llwyddiannus iawn, dangosodd Obama ac Arlywydd Ciwba, Raul Castro, bod eu perthynas yn cynhesu drwy eistedd yn rhes flaen ***Estadio Latinoamericano*** yn gwylio cwpl o fatiadau o gêm pêl fas gyfeillgar rhwng y Tampa Bay Rays a Thîm Cenedlaethol Ciwba. Gellir defnyddio digwyddiadau chwaraeon i ategu a hyrwyddo safbwyntiau polisi tramor, ac yn yr achos hwn, normaleiddio cysylltiadau rhwng yr Unol Daleithiau a Chiwba o dan arlywyddiaeth Obama.

Y maes olaf lle mae gwladwriaethau sofran yn weithredol yw defnydd achlysurol o fabolgampwyr i ategu eu diplomyddiaeth, eu diwylliant a'u gwerthoedd. Mae'r ddamcaniaeth yn syml. Mae mabolgampwyr yn atgyfnerthu grym, ac maen nhw'n gallu meithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau o ran nodau polisi tramor, hawliau dynol, datblygu, neu faterion amgylcheddol, cymdeithasol neu foesegol.

Yr Americanwyr sy'n ymgorffori'r arfer hwn orau, gan ddechrau drwy gyflogi'r rhedwr enwog Jesse Owens a'r chwaraewr tennis anhygoel Althea Gibson yn y chwedegau fel llysgenhadon ewyllys da, Owens i India, y Philipinas a Malaysia, a Gibson i India, Pacistan, Byrma a Gwlad Thai. Yn fwy diweddar, bu i'r Adran Wladol gynnwys dwy athletwraig hoyw – Billie Jean King (chwaraewraig tennis wedi ymddeol) a Caitlin Cahow (chwaraewraig hoci) – yn nirprwyaeth yr Unol Daleithiau ar gyfer seremonïau agoriadol a chloi Gemau Olympaidd y Gaeaf 2014 yn Sochi. Roedd y cam hwn yn ymateb ac yn her i bolisïau didrugaredd gwrth lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws a rhyngrywiol (LHDTRh+) Rwsia.

Mae Tsieina hefyd yn hen law ar ddefnyddio cenhadon chwaraeon. Cyn Gemau Olympaidd 2008, llwyddodd y cawr o chwaraewr pêl-fasged Yao Ming i ddenu miliynau o gefnogwyr o Tsieina i gynghrair y Gymdeithas Bêl-fasged Genedlaethol (NBA), ynghyd â dod â miliynau o Americanwyr i gysylltiad â'r Tsieina 'newydd'. Yn ystod ei gyfnod gyda'r Houston Rockets (2002 – 2011), bu newyddiadurwyr o Tsieina yn ei ddilyn bob cam, byddai cefnogwyr o America yn gwisgo crys tîm cenedlaethol Tsieina, ac estynnodd llu o stadiymau groeso i'r cawr doniol a hynaws gyda dawnsiadau dreigaidd. Fel y dywedodd James Sasser, cyn Lysgennad yr Unol Daleithiau i Tsieina, "Rhoddodd Yao Ming wyneb dynol i Tsieina a phobl Tsieina yn yr Unol Daleithiau."[23]

Mae llysgenhadon chwaraeon yn chwarae rhan werthfawr o ran codi proffil rhanbarth a hyrwyddo gwerthoedd cenedl. Yng nghyd-destun Cymru, mae dynion a menywod fel Sam Warburton, Jade Jones, Geraint Thomas ac Anna Hursey yn ymgorffori nodweddion personoliaeth ddiplomyddol ac yn cael eu disgrifio fel llysgenhadon ar gyfer eu campau. Mae gan Gareth Bale 18.3 miliwn o ddilynwyr ar Twitter, ac mae Aaron Ramsay – John Charles yr oes fodern – yn llwyddo i swyno'r Eidal ar ei ben ei hun. Mae Nigel Owens, Jess Fishlock a Gareth Thomas yn eiriolwyr grymus a medrus ar ran y gymuned LHDT+, gan siarad yn agored yn erbyn ymddygiad homoffobaidd ac agweddau sydd wedi dyddio tuag at hawl unigolyn i fod yn hapus. Rydym yn teimlo fod gan Gymru fantais benodol yn y maes hwn.

## 2.3 Gwledydd sydd â strategaethau diplomyddiaeth chwaraeon: UDA, Awstralia a Ffrainc

Mae'r adran hon yn ystyried tair gwlad sydd â strategaethau diplomyddiaeth chwaraeon penodol: Unol Daleithiau America, Awstralia a Ffrainc.

**Yr Unol Daleithiau**

Fel un o'r ymatebion i drychineb 9/11, cyflwynodd Adran Wladol yr Unol Daleithiau gyfres o weithrediadau diplomyddiaeth chwaraeon. Cafodd chwaraeon ei ddefnyddio i gyrraedd meysydd a chreu cysylltiadau lle roedd dyfeisiau diplomyddiaeth gyhoeddus traddodiadol, fel gorsaf radio Voice of America, yn amlwg wedi methu eu cyrraedd: dynion Mwslimaidd ifanc wedi'u difreinio ar draws y Dwyrain Canol, Affrica a De Ddwyrain Asia. Cyflwynwyd diplomyddiaeth chwaraeon i ychwanegu at ddiplomyddiaeth gyhoeddus yr Unol Daleithiau, ac mae'n cael ei defnyddio ganddi i gystadlu am 'galonnau a meddyliau' yn y Rhyfel Hir yn erbyn Terfysgaeth. Mae'r enghraifft gryno hon yn amlinellu tri phrif gam polisi diplomyddiaeth chwaraeon: cynllunio, gweithredu, a mesur.

Mae diplomyddiaeth chwaraeon yr Unol Daleithiau yn rhan o waith Biwro Materion Addysgol a Diwylliannol yr Adran Wladol. Ei phrif fenter yw *SportsUnited*, sy'n rhan o ymdrech i "feithrin cysylltiadau sy'n cryfhau'n barhaus rhwng yr Unol Daleithiau a chenhedloedd eraill sy'n defnyddio'r angerdd byd-eang tuag at chwaraeon fel ffordd o oresgyn gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol-gymdeithasol."[24]

Mae *SportsUnited* yn canolbwyntio ar dri phrif weithgaredd: Ymwelwyr Chwaraeon, lle mae Llysgenhadon Americanaidd yn enwebu mabolgampwyr o'r wlad sy'n eu lletya i deithio i'r Unol Daleithiau i gael hyfforddiant a chlinigau arbenigol; Cenhadon Chwaraeon, lle caiff athletwyr a hyfforddwyr yr Unol Daleithiau eu dethol i ddod yn llysgenhadon chwaraeon byd-eang; a Grantiau Chwaraeon, sy'n hwyluso chwaraeon ac addysg a hyfforddiant i blant o dan 17 oed nad ydynt yn fabolgampwyr elitaidd.

Mae'n nodedig bod yr Unol Daleithiau yn mesur llwyddiant yn rheolaidd drwy gasglu data, dadansoddi, a chynnal arolygon ymhlith y cyfranogwyr. Ers 2005, er enghraifft, mae'r Unol Daleithiau wedi anfon 300 o Genhadon Chwaraeon i 70 gwlad, gan gynnwys Affganistan, Myanmar, Japan a Venezuela; mae mwy na 1,100 o hyfforddwyr ac athletwyr ifanc o 140 o wledydd wedi teithio i'r Unol Daleithiau i gymryd rhan mewn rhaglenni Ymwelwyr Chwaraeon, a dyfarnwyd dros 90 o grantiau i sefydliadau nid-er-elw yn yr Unol Daleithiau sy'n gweithredu rhaglenni mewn 60 o wledydd.[25] Mae mesur llwyddiant yn bwysig, yn enwedig wrth geisio argyhoeddi amheuwyr am y math newydd hwn o ddiplomyddiaeth.

**Y broses o greu strategaeth: Awstralia**

Awstralia oedd y wlad gyntaf yn y byd i lansio strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon benodol. Dyma wlad lle caiff chwaraeon yn aml ei glodfori fel petai'n grefydd genedlaethol. Y nod oedd sicrhau bod diwylliant domestig Awstralia, ei hunaniaeth a'i chariad tuag at chwaraeon yn rhan o'i diplomyddiaeth. Yn ogystal, nododd yr Adran Materion Tramor a Masnach bod chwaraeon yn ased grym cymell tawel allweddol, ochr yn ochr ag addysg, gwyddoniaeth ac ymchwil, y celfyddydau, y cyfryngau a darlledu, a rheoli trychinebau, i enwi dim ond rhai. Gan gydweithio â chenadaethau, swyddfeydd a llysgenadaethau tramor Awstralia, barnwyd bod chwaraeon a grym cymell tawel yn hanfodol "er mwyn helpu i siapio amgylchedd sydd o blaid diddordebau a gwerthoedd polisi tramor Awstralia yn yr hirdymor."[26] Byddai'r brif rhaglen datblygu chwaraeon, sef Partneriaethau Chwaraeon y Môr Tawel, hefyd yn cael ei hymgorffori yn yr ymagwedd strategol newydd a ddisgrifir isod. Mae taith Llywodraeth Awstralia yn cyfeirio at broses y gallai Cymru ddysgu ganddi. Er hwylustod, mae wedi'i rhannu'n saith cam.

***Cam un: pam ddylen ni ei wneud?***

I ddechrau, roedd yn rhaid gwneud y ddadl dros ddefnyddio chwaraeon fel cyfrwng i ategu diplomyddiaeth Awstralia. Roedd hyn yn gymharol hawdd: yn wir, os oedd chwaraeon mor bwysig i ddiwylliant, gwerthoedd a hunaniaeth y Wlad Ffodus, yna pam nad oeddent wedi'i gynnwys yn ei diplomyddiaeth? Wedi'r cwbl, cynrychiolaeth o'r genedl a gaiff ei chyfleu dramor yw diplomyddiaeth; pwy maen nhw'n meddwl ydyn nhw.

***Cam dau: herio'r diwylliant***

Yna, roedd yn rhaid herio diwylliant yr Adran Materion Tramor a Masnach. Sylw cyffredin a glywyd yn nyddiau cynnar gwaith lobïo'r Adran oedd "diplomyddion ydyn ni. Dydyn ni ddim yn ymwneud â chwaraeon!"[27] Ymatebwyd i'r agwedd hon gyda chyfres o weithdai a phecynnau gwybodaeth a luniwyd gan dîm o ddiplomyddion ac academyddion.

***Cam tri: ffurfio tîm o bencampwyr***

Yna, aeth grŵp bach o weithwyr sy'n hoff o chwaraeon ati i hyrwyddo'r achos. Yn achos Awstralia, pum aelod o staff o'r Adran Materion Tramor a Masnach yrrodd y broses gyfan.[28] O'r cam cyntaf, pwysleisiodd y tîm hwn nad oedden nhw am fynd ati i amharu nac i wrthdaro â gwaith adrannau eraill. Yn hytrach, aethant ati i ddatblygu meysydd o ddiddordeb cyffredin, i "gydweithio a chydlynu gydag asiantaethau eraill fel Austrade neu'r Swyddfa Chwaraeon i hysbysu a dylanwadu ar bartneriaid a chyhoedd dramor, i hyrwyddo chwaraeon i gael mantais strategol i'r ddwy ochr."[29]

***Cam pedwar: ffurfio gweithgor llywodraeth gyfan***

Er mwyn ffurfio Strategaeth effeithiol, ynghyd ag osgoi gwrthdaro rhwng grymoedd mewnol, cam nesaf yr Adran Materion Tramor a Masnach oedd sefydlu gweithgor diplomyddiaeth chwaraeon. Roedd hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Austrade, Comisiwn Chwaraeon Awstralia (a ailenwyd yn Sport Australia yn 2018), yr Adrannau Iechyd a Thwristiaeth, ac o dro i dro, sefydliadau chwaraeon allanol fel Ffederasiwn Pêl-droed Awstralia. Diben y gweithgor oedd egluro diplomyddiaeth chwaraeon, amlinellu tiriogaethau, dynodi rolau, rhannu adnoddau, cydlynu gweithgareddau a, lle bo'n bosib, osgoi dyblygu gwaith.

***Cam pump: datrys sut mae chwaraeon yn berthnasol i nodau polisi tramor***

Roedd yn bwysig hefyd cysylltu unrhyw ymgais o ran diplomyddiaeth chwaraeon â nodau polisi tramor traddodiadol. Roedd amseru hyn yn ffodus o ystyried lansiad *Papur Gwyn Awstralia yn y Ganrif Asiaidd* yn 2012, a oedd yn cyfeirio at chwaraeon fel ffordd o "ddyfnhau ac ehangu" ymgysylltiad gyda'r rhanbarth ac "adeiladu dealltwriaeth ddyfnach, meithrin gwerthfawrogiad diwylliannol, a chynnig cyfleoedd masnachol."[30] Mae'n bwysig bod unrhyw fentrau diplomyddiaeth chwaraeon yn berthnasol i amcanion polisi tramor traddodiadol.

***Cam chwech: dod â chynghreiriaid grymus yn rhan o'r gwaith***

Roedd cefnogaeth weinidogol yr un mor bwysig. Nid oedd gwerthu'r syniad yn dasg anodd i'r Adran Materion Tramor a Masnach. Roedd Tony Abbott, y Prif Weinidog rhwng 2013 a 2015, yn hoff iawn o chwaraeon, ac yn cystadlu'n aml mewn triathlonau, marathonau, digwyddiadau syrffio, a beicio pellter hir. At hynny, mae Julie Bishop, y Gweinidog Materion Tramor rhwng 2013 a 2018, yn rhedwraig frwd ac mae ganddi gysylltiad dwfn a phersonol gyda chwaraeon. Mae hi'n cefnogi tîm pêl-droed Awstralaidd West Coast Eagles, ac fe wasanaethodd fel aelod bwrdd rhwng 2008 a 2013.[31] Roedd Abbott, Bishop a Susan Hayne, y Gweinidog Chwaraeon ar y pryd, yn gefnogol o'r syniad o'r dechrau.

***Cam saith: lansio***

Lansiwyd ***Strategaeth Diplomyddiaeth Chwaraeon Awstralia (2015-2018)*** yn swyddogol ym mis Mehefin 2015 gan y Prif Weinidog, y Gweinidog Tramor a'r Gweinidog Chwaraeon yn Nhŷ'r Senedd, Canberra. Roedd dros 80 o Weinidogion yn bresennol, ynghyd â swyddogion y wasg ac enwogion o'r byd chwaraeon.

Fel y nododd y Gweinidog Tramor Julie Bishop (2015) yn y lansiad, mae'r Strategaeth

> *yn arwydd o gyfnod newydd o bartneriaeth rhwng Llywodraeth Awstralia a sefydliadau chwaraeon. Gyda'n gilydd, byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth, ein cyfleusterau a'n sgiliau chwaraeon rhagorol i hyrwyddo Awstralia ac i gryfhau ein cysylltiadau gyda gwledydd a chymunedau yn y rhanbarth.*[32]

Strategaeth yr Adran Materion Tramor a Masnach 2015-2018 oedd y gyntaf o'i bath yn y byd, ac roedd yn cydnabod bod pobl o gwmpas y byd yn 'gweld' Awstralia nid drwy ei pholisi tramor ond drwy ei chwaraeon. Roedd hefyd yn dathlu chwaraeon fel cyfrwng i ddangos gallu a chymwysterau Awstralia, yn sicrhau arweinyddiaeth Awstralia o ran hygrededd ac arloesedd mewn chwaraeon, ac yn y pen draw yn hybu dylanwad diplomyddol ac enw byd-eang y genedl.

**Mega-ddigwyddiadau a dulliau: Ffrainc a l'équipe qui gagne[33]**

Mae'r fedal aur am ddiplomyddiaeth chwaraeon – y tu allan i Awstralia, hynny yw – yn mynd i Ffrainc. Dechreuodd eu taith yn 2012 wrth wylio Llundain yn croesawu'r Gemau Olympaidd, twrnamaint yr oedden nhw'n agos iawn at gael ei gynnal. Ar ôl cyfnod hir o fyfyrio yn y llywodraeth, lansiwyd strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon yn 2014 gan Valérie Fourneyron, y Gweinidog Chwaraeon ar y pryd.

Mae'n bwysig nodi'r amseriad. Ni wnaeth Ffrainc ruthro'r broses. Aethant ati i sganio'r gorwel, a mabwysiadu ymagwedd tymor canolig i hirdymor tuag at feithrin strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon. Gan gydnabod bod "chwaraeon yn chwarae rôl sylweddol o ran denu ymwelwyr i Ffrainc ac arddangos cyrhaeddiad rhyngwladol y wlad", sefydlodd Gweinyddiaeth Ewrop a Materion Tramor Ffrainc weithgor i ddechrau, a oedd yn cynnwys adrannau llywodraethol, ffederasiynau chwaraeon, busnesau chwaraeon mawr, a'r Pwyllgor Olympaidd Cenedlaethol.[34] Yna, aethpwyd ati i fapio a mesur y diwydiant chwaraeon, a dilynodd sawl arloesiad arall: Llysgennad Chwaraeon cynta'r byd (Philippe Vinogradoff),[35]Swyddfa ar gyfer Economeg Chwaraeon, a Phwyllgor Olympaidd newydd, oedd â'r nod o hyrwyddo chwaraeon Ffrainc yn rhyngwladol, cynyddu presenoldeb Ffrainc mewn cyrff chwaraeon rhyngwladol, a sicrhau bod Ffrangeg yn parhau yn iaith swyddogol yn y Gemau Olympaidd.

Hyd yma, mae'r gweithgarwch wedi bod yn canolbwyntio ar wneud cais i gynnal twrnameintiau chwaraeon nodedig, ennill y cais, a'u cynnal. Ar ôl y siom o golli Gemau Olympaidd 2012 i Brydain, "dysgodd [Ffrainc] lobïo".[36] Fel y mae ffigur 1.1 yn ei ddangos, mae'r buddsoddiad yn sicr wedi talu ar ei ganfed.

Yn gryno, mae Ffrainc wedi cyfateb llwyddiant ym maes chwaraeon gyda llwyddiant diplomyddol oddi ar y cae, fel petai. Maen nhw'n ymddangos yn barod i arloesi ymhellach, yn enwedig o ran cynnal digwyddiadau mawr. Roedd y ffordd y cynhaliwyd Cwpan Ryder 2018, sef y gamp sy'n cael ei gwylio fwyaf ond dau ar ôl y Gemau Olympaidd a Chwpan Pêl-droed y Byd, yn symbol o ddiwylliant Ffrainc o arloesedd, bod yn wahanol, a'r cyfeiriad strategol newydd. Fe'i chwaraewyd yn Le Golf National yn Saint-Quentin-en-Yvelines, cwrs a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer y naws unigryw y mae'r gêm yn ei chreu, a daeth dros 300,000 o gefnogwyr i wylio'r Ewropeaid yn curo tîm America yn annisgwyl gyda sgôr o 17½ - 10½ (a doedd dim un Ffrancwr yn chwarae yn nhîm Ewrop).

Ni ddylai neb synnu bod Ffrainc yn deall grym diplomyddiaeth chwaraeon. Mae ras flynyddol y Tour de France yn parhau i fod yn un o'r enghreifftiau mwyaf llwyddiannus a phoblogaidd ymhlith gwylwyr ym maes chwaraeon, diwylliant a thwristiaeth. Yn 2019, gwyliodd 3.5 biliwn o bobl mewn 190 o wledydd y Tour de France, ac mae'n un o'r digwyddiadau chwaraeon blynyddol sydd â'r nifer uchaf o bobl yn ei fynychu ar y blaned, gyda 12 miliwn o wylwyr ar ochr y ffordd yn cymeradwyo'r beicwyr. Dychmygwch pe bai modd i Gymru wneud cais a chynnal y Grand Départ, rhywbeth y gwnaeth Swydd Efrog lwyddiant mawr ohono yn 2014.

**Ffigur 1.1.**
Digwyddiadau chwaraeon nodedig yn Ffrainc 2015-2024

- Pencampwriaeth Rhwyfo'r Byd 2015
- Pencampwriaeth Pêl-droed UEFA Ewro 2016
- Pencampwriaeth Hoci Iâ'r Byd 2017
- Pencampwriaeth Canŵio Slalom y Byd 2017
- Pencampwriaeth Pêl Law y Byd 2017
- Cwpan Ryder (Golff) 2018
- Cwpan Menywod y Byd FIFA 2019
- Cwpan Rygbi'r Byd 2023
- Gemau Olympaidd yr Haf 2024

## 2.4 Sefydliadau rhynglywodraethol a chwaraeon ar gyfer datblygu a heddwch

Gall Cymru feddwl am rwydweithiau fertigol, ynghyd â llorweddol, ar gyfer cyfleoedd i feithrin cysylltiadau rhyngwladol a chodi'i llais yn y byd. Wrth i Brydain negodi ei darpar berthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd, mae chwaraeon a diplomyddiaeth chwaraeon yn cynnig ffordd gadarnhaol o gynnal cysylltiadau a rhwydweithiau gyda'r Undeb Ewropeaidd ac o rannu arferion gorau.

Mae sefydliadau rhynglywodraethol hefyd yn ymgysylltu â chwaraeon, yn bennaf ym maes Chwaraeon ar gyfer Datblygu a Heddwch. Mae'r astudiaethau achos yma'n bwysig i Gymru, gan fod yr arbenigedd, y wybodaeth a'r arferion gorau ym maes chwaraeon ar gyfer datblygu gan sefydliadau rhynglywodraethol, ac nid gan wladwriaethau. At hynny, pe bai Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn buddsoddi mewn strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon, dylai gynnwys ffrwd waith sy'n ystyried chwaraeon ar gyfer datblygu.

Yr arloeswr gwreiddiol ym maes Chwaraeon ar gyfer Datblygu oedd Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Chwaraeon ar gyfer Heddwch (UNOSDP), a lansiwyd gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol Kofi Annan yn 2001. Arweiniodd y swyddfa hon y ffordd wrth ddatblygu polisi cynhwysfawr a byd-eang o fynediad cynhwysol i bawb at chwaraeon, addysg gorfforol a gweithgarwch corfforol.

Y Cenhedloedd Unedig sydd hefyd yn gyfrifol am hwyluso cyfarfodydd lefel uchel y Gynhadledd Ryngwladol o Weinidogion ac Uwch Swyddogion sy'n Gyfrifol am Addysg Gorfforol a Chwaraeon (a lansiodd Gynllun Gweithredu Kazan 2017 yn ddiweddar[37]), am ddiogelu uniondeb chwaraeon, ac am hyrwyddo tystiolaeth sy'n seiliedig ar ymchwil ym maes Chwaraeon ar gyfer Datblygu, a'r rhan y mae chwaraeon yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Ar ôl i UNOSDP gau yn 2017 fel rhan o agenda diwygio'r Ysgrifennydd Cyffredinol Guterres, daeth Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad yn geidwad arno. Mae'r rhan fwyaf o'i waith yn canolbwyntio ar arferion Chwaraeon ar gyfer Datblygu, hynny yw sut i gynllunio, cyflwyno a mesur polisïau effeithiol. Mae cyhoeddiadau a pholisïau diweddar yn cysylltu chwaraeon â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, Cynllun Gweithredu Kazan, ac Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig. Mae ***Gwella Cyfraniad Chwaraeon at Ddatblygu Cynaliadwy***, a luniwyd gan Oliver Duffield, yn enghraifft dda o gorff o waith sy'n cynnig arweiniad ar ddatblygu strategaeth a pholisi i lywodraethau, ynghyd â chyngor, cyfryngau ac arferion gorau ar gyfer pob un er mwyn cynyddu cyfraniad chwaraeon tuag at amcanion datblygu cenedlaethol a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Yr Undeb Ewropeaidd yw'r endid cydwladol mwyaf datblygedig o ran diplomyddiaeth chwaraeon. Yn 2015, sefydlodd y Comisiwn Ewropeaidd ddau grŵp lefel uchel ar ddiplomyddiaeth chwaraeon. Roedd y rhain yn cynnwys athletwyr, academyddion, cynrychiolwyr melinau trafod, swyddogion y wasg, a swyddogion chwaraeon (o fusnesau megis Adidas a sefydliadau fel UEFA). Roedd un grŵp yn canolbwyntio ar "ddiplomyddiaeth chwaraeon" a'r llall ar "ddiplomyddiaeth chwaraeon llawr gwlad" (chwaraeon bob dydd sydd ddim yn elitaidd ac sydd ddim yn ystyried rhywedd, oedran, gallu corfforol na chefndir ethnig).[38] Y nod oedd "asesu gwerth chwaraeon ym mholisïau allanol yr Undeb Ewropeaidd, nodi sut gall chwaraeon helpu'r Undeb Ewropeaidd i gyrraedd ei ddyheadau gwleidyddol allanol (e.e. meithrin cysylltiadau â gwledydd partner) a bod yn elfen o ddeialog gyda thrydydd gwledydd a rhanbarthau fel rhan o ddiplomyddiaeth gyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd."[39]

Mae'n bwysig ystyried yr Undeb Ewropeaidd gan mai nhw yw'r mwyaf datblygedig o holl 'chwaraewyr' Ewrop ym maes diplomyddiaeth chwaraeon. Maen nhw'n cynnig cyngor, cymorth ac, yn yr un modd, partneriaethau. Mae'r gydberthynas rhwng Rhaglen Heddwch a Chymodi'r Undeb Ewropeaidd, Cymdeithas Bêl-droed Iwerddon a Chlwb Cefnogwyr Swyddogol Gogledd Iwerddon yn enghraifft dda. Defnyddiwyd cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd i hwyluso ymwybyddiaeth o hiliaeth a gwrth-sectyddiaeth. Defnyddiwyd mesurau hunan-reoleiddio er mwyn sicrhau ymddygiad da gan y dorf ac i drawsnewid yr awyrgylch yng ngemau pêl-droed rhyngwladol Gogledd Iwerddon. Galluogodd y rhaglen hon Gymdeithas Bêl-droed Iwerddon i ddatblygu partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol fel Sport NI, y Cyngor Cysylltiadau Cymunedol, Cyngor Gogledd Iwerddon ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig, cefnogwyr, y llywodraeth ac academyddion a ddarparodd ganllawiau ar gyfer y rhaglen fel rhan o'r Panel Cynghori Pêl-droed i Bawb.

Mae'r fenter fyd-enwog hon yn dal i fod yn un o'r enghreifftiau gorau o chwaraeon ar gyfer cymodi a heddwch, ac mae'n atgoffa Cymru o werth ymagwedd partneriaeth gynhwysol a chenedlaethol tuag at ddiplomyddiaeth chwaraeon.

## 2.5 Asiantaethau'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau anllywodraethol

Mae asiantaethau chwaraeon llywodraethol, fel UK Sport, hefyd yn chwarae rhan bwysig. Maen nhw'n sefydliadau mawr sydd wedi'u hariannu'n dda, ac sy'n cyfuno portffolios chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol fu unwaith ar wahân mewn un hyb canolog, ac maent wedi dod yn weithredwyr gwleidyddol cynyddol soffistigedig. Mae eu strategaethau'n amlinellu gwerthoedd craidd, amcanion a datganiadau cenhadaeth sy'n ymwneud â medalau, digwyddiadau mawr a cherrig milltir o ran datblygiad, sydd i gyd wedi'u hariannu gan gyllidebau gwerth miliynau o bunnoedd.

Mae sefydliad fel UK Sport yn enghraifft dda. Fe'i crëwyd ar ôl perfformiad gwael yng Ngemau Olympaidd yr Haf 1996 yn Atlanta, pan enillodd y Deyrnas Unedig ddim ond un fedal aur. Gan weithredu ar gyllideb flynyddol o £144.3 miliwn (cyllideb 2018/2019),[40] mae'r sefydliad hwn wedi bod yn allweddol i lwyddiant dilynol Prydain ym myd chwaraeon, i'w gallu i wneud cais i gynnal digwyddiadau mawr a'u cynnal wedyn, ac i ddarparu nifer o raglenni adnabyddus ym maes chwaraeon ar gyfer datblygu.

Fel rhan o'i genhadaeth greiddiol o "yrru ac arddangos llwyddiant medalau Prydain ar y llwyfan byd-eang," mae UK Sport yn gyfrifol am "weithgareddau a ddarperir orau ar lefel y Deyrnas Unedig, megis: gwneud cais am ddigwyddiadau chwaraeon mawr drwy ei Gyfres Digwyddiadau Aur, a'u llwyfannu; cynyddu gweithgarwch chwaraeon a dylanwad dramor; a hyrwyddo ymddygiad, moeseg ac amrywiaeth mewn chwaraeon."[41] Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, mae cynllun busnes UK Sport yn rhestru dim llai na saith amcan polisi, naw strategaeth, ac 11 dangosydd perfformiad allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn un o hybiau is-wladol UK Sport (ynghyd â Sport Scotland, Sport England, a Sport Northern Ireland). Pe bai Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon, byddai angen cynnwys UK Sport a Chwaraeon Cymru.

Mae llawer o gyrff cyhoeddus anllywodraethol a chyrff ymgynghori annibynnol sy'n gwneud gwaith i i Lywodraeth Cymru yn creu meysydd o arbenigedd unigryw iddyn nhw eu hunain mewn diplomyddiaeth chwaraeon, gan gynnwys Cymdeithas Chwaraeon Cymru a'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Mae'r British Council, sef sefydliad y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol, wedi darparu rhaglenni chwaraeon llawr gwlad ledled y byd, sydd wedi cael effaith nodedig. Mae'r prif fentrau megis ***Premier Skills, Try Rugby*** ac ***International Inspiration***[42] wedi cyfoethogi dros 25 miliwn o bobl ifanc, 7,600 o hyfforddwyr, ac wedi creu 55 polisi cenedlaethol yn ymwneud â chwaraeon. Mae cydweithredu, arloesedd ac integreiddio wedi bod yn hanfodol i'r rhaglenni hyn. Fel y dywedodd Jenny Scott, Cyfarwyddwr British Council Cymru, "mae partneriaethau effeithiol wedi bod wrth galon y llwyddiant hwn, gan weithio gydag ystod o sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol yn y sector masnachol a chyhoeddus i gyflawni amcanion dwyochrog."[43]

Heblaw am y rhaglenni a grybwyllwyd uchod, mae'r British Council yn cyfryngu cysylltiadau rhyngwladol, yn rhoi cyflwyniadau, ac yn hwyluso llawer o raglenni'n ymwneud â chwaraeon, datblygu diplomyddiaeth, drwy dros gant o swyddfeydd sydd ganddynt ledled y byd. Dylai unrhyw ddarpar strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i Gymru fanteisio ar rwydweithiau, arbenigedd a chefnogaeth o'r fath.

## 2.6 Crynodeb

Cadarnhaodd ein hadolygiad o arferion gorau mewn diplomyddiaeth chwaraeon bod rhanddeiliaid yn defnyddio chwaraeon fel ffordd o gyflawni ystod o ganlyniadau amrywiol; o bolisi tramor i ddarparu cymorth rhyngwladol i wireddu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Maent yn cydnabod atyniad chwaraeon ar gyfer diplomyddiaeth gyhoeddus, ac maent wedi llunio polisïau penodol i weithio gyda nhw, i ddysgu ganddynt, ac i fanteisio ar rym chwaraeon.[44]

Mae hyn yn newyddion da i Gymru. Mae digonedd o bolisïau a llenyddiaeth ar arferion gorau i fod yn sail i strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon gynta'r byd gan lywodraeth ddatganoledig.




Tîm pêl-droed dynion Cymru yn derbyn croeso bythgofiadwy yng Nghaerdydd wedi perfformiad hanesyddol ym Mhencampwriaeth UEFA Euro 2016. Caerdydd, Gorffennaf 8 2016. Llun: Ian Francis

# Adran 3
# Cymru, chwaraeon ac ymgysylltiad rhyngwladol – ble ydyn ni nawr?

**Er mwyn ymchwilio i ddichonoldeb strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i Gymru, aethom ati yn gyntaf i adolygu llenyddiaeth Cymru ar y pwnc, a daethom ag enghreifftiau ymarferol ynghyd o'r hyn y gellir ei alw'n ddiplomyddiaeth chwaraeon Cymru o'r gorffennol a'r presennol. Cadarnhaodd yr ymarferiad hwn bod gan Gymru drysor gwirioneddol heb ei gyffwrdd o asedau grym cymell tawel chwaraeon.**



Clive Sullivan, chwaraewr rhyngwladol a aned yng Nghaerdydd ac a gynrychiolodd Gymru a Phrydain. Clive Sullivan oedd y chwaraewr du cyntaf i fod yn gapten ar unrhyw dîm cenedlaethol o Brydain gan arwain y Llewod i fuddugoliaeth yng Nghwpan Rygbi'r Gynghrair y Byd yn 1972. Cafodd ei ddewis yn gapten ar dîm cenedlaethol Gymru yn 1975.

## 3.1 Adolygiad llenyddiaeth cryno: Cymru, chwaraeon ac ymgysylltiad rhyngwladol

Dechreuodd y rhan hwn o'r adolygiad llenyddiaeth gyda chwestiwn syml: oes rhywbeth wedi'i ysgrifennu am y gydberthynas rhwng Cymru, chwaraeon ac ymgysylltiad rhyngwladol? Yn gryno, nac oes. Fodd bynnag, mae rhai ffynonellau ymylol gwerth eu hystyried. Gan edrych drwy lygad ysgolheigaidd, mae *A History of Sport in Wales* gan Martin Johnes yn cynnig man cychwyn defnyddiol.[45] Ymhlith gwledd o themâu hanesyddol, mae'r llyfr hwn yn nodi'r rhan y mae mewnfudo wedi'i chwarae o ran cyflwyno chwaraeon newydd i Gymru. Roedd chwaraeon, fel y mae'r llyfr yn ei ddadlau, yn arf hanfodol wrth ddod â chymunedau gwahanol at ei gilydd a ffurfio ymdeimlad o genedligrwydd Cymreig. Fel y mae'r awdur yn nodi,

> *...nid yn unig y mae chwaraeon wedi helpu'r Cymry i weld eu hunain fel cenedl, ond mae hefyd wedi helpu eraill i dderbyn cenedligrwydd Cymru hefyd. Gellir dadlau nad oes gan Gymru bresenoldeb ar y llwyfan gwleidyddol rhyngwladol, ond mae ganddi hen hanes o gymdeithasau a thimau cenedlaethol ei hun, gyda llawer ohonynt wedi denu sylw sylweddol yn y wasg.*

Mae barn o'r fath yn cadarnhau'r rhan hanesyddol y mae chwaraeon yn ei chwarae wrth fynegi cenedligrwydd, yma a thramor.

Mae *Hanes Cymru* John Davies yn cynnig cofnod mwy pendant o'r amrywiadau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach sy'n sail i ffurfiad cenedl fodern Cymru.[46] I John Davies, mae datblygiad chwaraeon cenedlaethol yng Nghymru wedi dylanwadu ar sut mae Cymru'n gweld y byd, ynghyd â sut mae'r 'arall' – hynny yw, pobl dramor, cenhedloedd a gwladwriaethau – yn 'gweld' Cymru.

I amlygu'r pwynt hwn, mae'n dyfynnu'r academydd uchel ei barch, Merfyn Jones, sy'n ein hatgoffa

*I lawer o bobl y tu allan i Gymru...mae Cymru'n bodoli'n rhinwedd y rheini sy'n ei chynrychioli ym myd chwaraeon...Prin yw'r sefydliadau hynny sydd wedi dylanwadu cymaint ar yr ymwybyddiaeth genedlaethol â'r [timau] Cymreig cenedlaethol.*[47]

Fel John Davies, mae llawer o awduron yn cyfeirio at aelodaeth Cymru mewn rhwydweithiau chwaraeon rhyngwladol, yn enwedig mewn cyrff llywodraethu rhyngwladol fel UEFA, FIFA, Rygbi'r Byd a Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad. Mae presenoldeb o'r fath yn galluogi Cymru i ddilysu ei hun ymhellach fel cenedl chwaraeon fyw a dylanwadol ar y llwyfan byd-eang.

I grynhoi, mae chwaraeon fel dyfais, neu arf, wedi cael ei archwilio ym myd domestig Cymru, ond nid fel arf rhyngwladol a diplomyddol. Mae bwlch yn y llenyddiaeth o ran gwerth chwaraeon i broffil rhyngwladol Cymru. Nid oes papur, llyfr nac astudiaeth academaidd o'r fath wedi'i hysgrifennu.

Nid yw hyn yn peri syndod o ystyried mai British Council Cymru gomisiynodd yr ymchwiliad cyntaf i'r pwnc. At hynny, mae Cymru'n genedl ifanc a datganoledig sy'n dechrau edrych tuag allan. Rhaid cofio mai dim ond ym mis Rhagfyr 2018 y cafodd swydd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ei chreu. Fodd bynnag, ni fyddai'n synhwyrol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon heb ymgysylltu ag academyddion Cymru i ymchwilio i'r pwnc yn gyntaf.

## 3.2 Medalau aur, pencampwyr ac arwyr: ddoe a heddiw

Mae'r dirwedd ymarferol yn amlycach. Mae gweinyddwyr, dyfarnwyr, cefnogwyr, athletwyr a thimau chwaraeon o ansawdd byd-eang yn cadarnhau bod Cymru'n genedl fach sydd ag ôl-troed chwaraeon anghymesur o fawr, a brand chwaraeon grymus, amlwg, a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol. Mae'r ddraig, y crys coch, yr anthem genedlaethol a sloganau Cymraeg yn symbolau byd-enwog.

Mae timau ac athletwyr Cymru yn frandiau diplomyddiaeth chwaraeon grymus. Mae llawer o enghreifftiau o'r gorffennol a'r presennol o sut mae chwaraeon Cymru'n codi proffil rhyngwladol y genedl:

- Buddugoliaeth 1-0 Dinas Caerdydd yn erbyn y ffefryn, Arsenal, yn Wembley ym 1927 yw'r unig dro i Gwpan yr FA adael Lloegr.
- Lynn 'the Leap' Davies yn cael ei goroni fel pencampwr y naid hir yng Ngemau Olympaidd 1964 yn Tokyo.
- Ray Reardon yn ennill Pencampwriaeth Snwcer y Byd ym 1978 yn 45 oed (fe yw'r enillydd hynaf i gael y tlws, mae wedi ennill chwe gwaith, ac mae'n un o chwaraewyr gorau'r gêm).
- Buddugoliaeth ddramatig, un trawiad, Ian Woosnam yn erbyn José María Olazábal yng nghystadleuaeth Meistri'r Unol Daleithiau 1991.
- Perfformiad syfrdanol Colin Jackson yn rownd derfynol y ras rhwystrau 110 medr ym mhencampwriaeth y byd 1993 yn yr Almaen (enillodd Jackson y fedal aur a gosod record byd newydd a safodd am 13 mlynedd).
- Un ar ddeg – ie, 11 – medal aur y Fonesig Tanni Grey-Thompson a enillwyd dros bum cyfres o'r Gemau Paralympaidd, ynghyd â dwy gystadleuaeth Pencampwriaeth y Byd a dwsinau o lwyddiannau eraill.
- Jess Fishlock a'i hanturiaethau dros y byd, sydd wedi ennill teitlau pêl-droed, ffrindiau a chefnogwyr yn Ffrainc, Awstralia, yr Alban, yr Iseldiroedd ac Unol Daleithiau America.
- Ein 'tîm' o focswyr gorau'r byd: bu i Joe Calzaghe, er enghraifft, ymddeol yn 2009 fel pencampwr y byd heb ei guro. Mae cyn-bencampwyr byd eraill yn cynnwys Enzo Maccarinelli, Gavin Rees, Howard Winstone, Jim Driscoll, Steve Robinson, Robbie Regan a'r aml-dalentog Lauren Price sydd hefyd yn bencampwraig ryngwladol cic-bocsio ac yn gyn-chwaraewraig pêl-droed rhyngwladol i Gymru.

- Gwaith arloesol Laura McAllister, capten tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru a arweiniodd y ffordd, academydd uchel ei pharch, ac Is-gadeirydd Pwyllgor Pêl-droed Menywod UEFA ar hyn o bryd.
- Mae Gareth Thomas yn bencampwr ar y cae ac oddi arno. Gyda mwy na 100 o gapiau dros Gymru, Llewod Prydain ac Iwerddon a'r Barbariaid, Gareth oedd y chwaraewr rygbi'r undeb proffesiynol cyntaf i ddod allan fel person hoyw, a chafodd ei enwebu fel person hoyw mwyaf dylanwadol Prydain yn Rhestr Pinc The Independent on Sunday, ac yn 2010 derbyniodd wobr Arwr y Flwyddyn Stonewall. Mae'n dal i fod yn eiriolwr dros gael gwared ar homoffobia ym myd chwaraeon.[48]
- John Toshack yw un o reolwyr pêl-droed mwyaf profiadol y byd. Mae wedi rheoli clybiau yng Nghymru, Sbaen, Portiwgal, Twrci, yr Eidal, Moroco, Azerbaijan, Iran a Ffrainc; a thimau cenedlaethol Cymru a Macedonia. Yn ystod ei yrfa hynod, aeth â Dinas Abertawe o waelodion cynghreiriau pêl-droed Lloegr i'r haen uchaf, sicrhaodd sawl teitl cenedlaethol ac Ewropeaidd i Lerpwl, ynghyd â buddugoliaeth La Liga fel hyfforddwr i Real Madrid. Ar ôl ennill Copa del Ray Sbaen fel rheolwr cyntaf Real Sociedad nad oedd yn dod o Wlad y Basg yn yr oes fodern, caiff ei barchu yn Donostia/San Sebastián lle mae'n dal i fyw. Mae e'n ffynhonell werthfawr o wybodaeth am fyd chwaraeon a'r byd yn gyffredinol, ac roedd e'n dipyn o chwaraewr hefyd.
- Roedd cyn-flaenwr Cymru a Lerpwl, Ian Rush, yn llysgennad ar gyfer rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA 2017 yng Nghaerdydd, ac mae'n llysgennad uchel ei barch ar gyfer Clwb Pêl-droed Lerpwl, lle mae'n gweithio'n rheolaidd gyda llywodraethau dramor, pwysigion, ffederasiynau chwaraeon a chlybiau i hyrwyddo pêl-droed fel grym er lles. Mae'n dal i ddal record anelwr Lerpwl, a Chymru tan yn ddiweddar (fe'i disodlwyd gan Gareth Bale yn 2018).
- Mae'r seren tennis bwrdd yn ei harddegau, Anna Hursey, wedi derbyn gwahoddiad (2020) i roi ei phersonoliaeth a'i phroffil chwaraeon cynyddol ar waith i helpu i achub y blaned fel Hyrwyddwr Ifanc Fframwaith Chwaraeon dros Newid Hinsawdd Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd. Fel yr athletwraig ifancaf erioed i gystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad ac fel seren y wasg yn yr Arfordir Aur yn 2018, mae hi hefyd wedi annog cysylltiadau diwylliannol dyfnach rhwng Cymru a Tsieina drwy ei doniau chwaraeon aruthrol a'i threftadaeth deuluol.

Mae'r rhestr yn parhau. Pe bai Cymru'n creu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon, byddai'n werth astudio a buddsoddi yn y cysyniad o lysgennad chwaraeon, yn enwedig chwaraewyr sydd wedi ymddeol. Nid yn unig byddai corff o ymchwil o'r fath yn ychwanegu gwerth i broffil rhyngwladol Cymru, ond dyma fyddai'r cyntaf o'i fath yn y byd (nid oes astudiaeth wedi ymchwilio i'r cysyniad deniadol hwn gydag unrhyw fanylder hyd yma).

Mae rhai o fomentau gorau'r byd chwaraeon wedi digwydd ar dir Cymru: Syr Edmund Hilary a Tenzing Norgay yn hyfforddi ar gyfer Mynydd Everest yng ngwesty Pen-y-Gwryd yn Eryri; Garfield Sobers yn bwrw chwe chwech ar Faes San Helen, Abertawe; Gareth Edwards yn sgidio ar draws yr hen drac milgwn ym Mharc yr Arfau ar ôl ei gais unigol arbennig yn erbyn yr Alban ym 1972; a Steven Gerard a'i daranfollt derfynol yng Nghwpan yr FA yn 2006 – dyma bedwar digwyddiad sydd wedi'u serio ar gof torfol y byd chwaraeon.

Mae Cymru'n gwybod sut i gyflwyno sioe dda. Yng Nghwpan Ryder 2010, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd, gwelwyd drama'r byd chwaraeon ar ei gorau gyda Graeme McDowell yn curo Hunter Mahan yn y gêm angor olaf 3 ac 1. Daeth 380 o awyrennau ychwanegol â 300,000 o ymwelwyr i Gaerdydd i wylio Real Madrid yn chwarae yn erbyn Juventus yn rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA yn 2017 (gan ddod ag incwm net o £45 miliwn i Gaerdydd).[49] Cystadlodd 64 o dimau yng Nghwpan y Byd Digartref yn 2019, a daeth dros 2,000 o athletwyr gwytnwch o bedwar ban byd ar gyfer Ironman Cymru (gan greu £3.5 miliwn ar gyfer yr economi leol a denu 10,000 o ymwelwyr i Ddinbych-y-pysgod).[50]

Yn ogystal, mewn byd sy'n llawn ymgyrchoedd diplomyddiaeth gyhoeddus ystrydebol, byddai'n esgeulus anwybyddu digwyddiadau anarferol Cymru, fel Pencampwriaeth Snorclo Cors y Byd, Ras y Trên, Pencampwriaeth Twba Bath y Byd, a'r ras annisgwyl o apelgar Marathon Dyn yn erbyn Ceffyl (ras flynyddol a gynhelir dros 22 milltir; rhybudd – mae'r ceffylau'n dueddol o wneud yn dda). Mae yna ddigwyddiadau newydd hefyd, fel Gemau Nitro'r Byd, Cymru 2020 (bwriedir ail-drefnu oherwydd Covid-19). Mae'r digwyddiad cyffrous hwn yn dod ag athletwyr gorau'r byd at ei gilydd o rasys rali groes, FMX, BMX, Sglefrio a Sgwter. Ac, os aiff popeth i gynllunio bydd cais llwyddiannus Ynys Mons i gynnal Island Games yn 2025 yn cyflwyno digwyddiad arddangos rhyngwladol unwaith mewn cenhedlaeth i Ogledd Cymru.

Mae Cymru hefyd yn gwybod sut mae denu doniau chwaraeon, chwaraewyr a hyfforddwyr. Mae cwrs Hyfforddi blaengar a byd-enwog UEFA gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru wedi croesawu Patrick Viera (Ffrainc), Michael Ballack (Yr Almaen), Tim Cahill (Awstralia), Roberto Martinez (Sbaen), Freddie Ljundberg (Sweden), Peter Crouch (Lloegr), Tracy Hamm (Unol Daleithiau America) a llawer o sêr eraill sydd wedi graddio oddi yno'n ddiweddar. Fel y dywedodd Thierry Henry (Ffrainc) o ddosbarth 2015, "mae'r ffordd maen nhw'n gwneud pethau yng Nghymru, yr athroniaeth, yn creu'r gêm berffaith."[51] Unwaith eto, dyma fodel ac ased y gellir ei astudio a'i ddyblygu.

Cymerodd Warren Gatland o Seland Newydd yr awenau gyda'r tîm rygbi cenedlaethol yn 2007, gan eu harwain i ennill pedwar o deitlau'r Chwe Gwlad (gan gynnwys tair Camp Lawn). Llwyddodd Undeb Rygbi Cymru i ddenu tri Kiwi arall, Wayne Pivac (Prif Hyfforddwr), Johnny McNichol (asgellwr), a Hadleigh Parkes (canolwr), a gwelwyd dau ohonynt am y tro cyntaf yng nghystadleuaeth y Chwe Gwlad yn 2020. Mae gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru hanes tebyg, yn enwedig o ran perswadio pobl ifanc sydd â chymhwysedd dwbl (Cymru-Lloegr) i wisgo'r crys coch. Mae Ethan Ampadu (Chelsea), Ben Woodburn (Lerpwl), Dan James (Manchester United) a David Brooks (Bournemouth), i gyd yn enghreifftiau o chwaraewyr sydd – oherwydd rhaglen benodol a byd-enwog a gyflwynwyd gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru – wedi gwneud penderfyniad pwrpasol i chwarae i Gymru ac nid Lloegr.



## 3.3 Chwaraeon Cymru

Y sefydliad sy'n llywio grym chwaraeon domestig Cymru yw Chwaraeon Cymru. Y sefydliad rhannol-ymreolaethol hwn sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgareddau corfforol yng Nghymru. Dyma brif ymgynghorydd Llywodraeth Cymru ar chwaraeon, ac mae ganddo brofiad o lunio, gweithredu a mesur polisïau chwaraeon. Mae ***Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru*** a ***Strategaeth Chwaraeon Cymru*** yn cyfeirio at gorff cyfoethog o brofiad yn gweithio gyda llawer o bartneriaid, ar draws pob lefel o gymdeithas.

Mae'r sefydliad hwn yn eistedd o dan awenau UK Sport. Wrth i Chwaraeon Cymru ganolbwyntio ar y lefel genedlaethol, mae UK Sport yn canolbwyntio ar y lefel ryngwladol drwy ei Strategaeth Cysylltiadau Rhyngwladol (2017-2021). Mae pedwar prif nod i'r strategaeth:

- Cryfhau llais Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol o fewn eu Ffederasiynau Rhyngwladol drwy ddatblygu strategaethau buddsoddi Cysylltiadau Rhyngwladol pwrpasol
- Cefnogi unigolion gwerthfawr a chredadwy o wledydd Prydain i geisio am swyddi arweinyddiaeth mewn sefydliadau chwaraeon rhyngwladol
- Eirioli a dylanwadu ar gyfer y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a moesegol mewn sefydliadau chwaraeon rhyngwladol
- Cryfhau ein cysylltiadau a datblygu partneriaethau rhwng Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol a chymheiriaid strategol dramor.

Mae'r berthynas rhwng UK Sport a Chwaraeon Cymru yn un hollbwysig o ran strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon bosib i Gymru. Pe bai Cymru'n dilyn y llwybr hwn, byddai angen sicrhau bod y cydberthnasau a'r cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a UK Sport yn cael eu gwneud yn eglur.

Alessandro Del Piero yn cwrdd â'i arwr, John Charles, yn ystod dychweliad emosiynol y Cymro i glwb pêl-droed Juventus lle chwaraeodd am bedwar tymor rhwng 1957-1962. Ym marn llawer, John Charles yw'r pêl-droediwr gorau a welodd y Deyrnas Unedig erioed. Roedd yn un o'r chwaraewyr cyntaf o'r Deyrnas Unedig i arwyddo i dîm tramor pan ymunodd â Juventus yn 1957. Yn ystod ei dymor cyntaf yn yr Eidal cafodd ei enwi'n Chwaraewr y Flwyddyn ac fe gafodd ei enwi yn rhestr fer Chwaraewr Gorau Ewrop ddwywaith hefyd. Roedd y cefnogwyr yn yr Eidal yn ei alw yn Il buon gigante ('Y Cawr Addfwyn) oherwydd ei natur garedig a thawel. Ni chafodd ei rybuddio na'i ddanfon o'r cae erioed trwy gydol ei yrfa. Enillodd 38 o gapiau rhyngwladol ac roedd yn aelod o dîm Cymru a chwaraeodd yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd FIFA yn Sweden yn 1958. Hawlfraint: Gianni GIANSANTI/Gamma-Rapho drwy Getty Images

## 3.4 Diplomyddiaeth chwaraeon Cymru ar waith

Mae tystiolaeth addawol o bartneriaethau diplomyddiaeth chwaraeon rhwng cynrychiolwyr chwaraeon Cymru a diplomyddion Cymru. Fel llywodraeth ddatganoledig, mae gan Gymru ei diplomyddion achrededig swyddogol ei hun. Mae oddeutu deugain o ddiplomyddion yn cynrychioli'r genedl mewn deuddeg gwlad dramor, yn hyrwyddo diddordebau Cymru, yn cyfathrebu negeseuon polisi craidd, ac yn trafod bargeinion masnach a buddsoddi.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn ffurfiau ar ddiplomyddiaeth chwaraeon eisoes, er bod hyn ar sail ad hoc ar hyn o bryd. Ym mis Mai 2018, er enghraifft, cynhaliodd Llywodraeth Cymru dderbyniad ar gyfer Undeb Rygbi Cymru ym mhreswylfa Llysgennad Prydain yn Washington DC. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn cyn y gêm rygbi ryngwladol gyntaf rhwng Cymru a De Affrica i gael ei chwarae ar dir America. Roedd gwahoddedigion yr uwchgynhadledd diplomyddiaeth chwaraeon anffurfiol hon yn cynnwys cysylltiadau busnes, gwleidyddol a Chymry ar wasgar o'r rhanbarth cyfan. Rygbi oedd yr atyniad, gan ddenu grŵp o randdeiliaid mwy amrywiol nag y mae derbyniadau busnes confensiynol yn eu denu fel arfer.

Yn yr un modd, yn 2019 aeth Cymru â dwy garfan i Japan ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd: y tîm, ac un o'i dirprwyaethau masnach tramor mwyaf erioed. O dan arweiniad y Prif Weinidog Mark Drakeford, trefnodd y ddirprwyaeth fargeinion gyda thimau busnes chwaraeon o bedwar ban byd, cyflwynwyd y goreuon o blith busnesau, diwylliant a bwyd Cymru, a rhwydweithiwyd gyda swyddogion o fyd chwaraeon, llywodraeth a diwydiant Japan yng nghanolfan Tŷ Cymru a adeiladwyd at y pwrpas yn Tokyo. Fel y mae'r Strategaeth Ryngwladol yn ei nodi am y digwyddiad arbennig,

*Roedd Cwpan Rygbi'r Byd 2019 yn Japan yn enghraifft wych o Gymru ar lwyfan y byd. Pwy fyddai wedi dychmygu stadiwm o 15,000 o gefnogwyr rygbi Japan yn canu anthem genedlaethol Cymru mewn sesiwn hyfforddi yn Kitakyushu, wrth i fusnesau o Gymru gyfarfod â buddsoddwyr Japaneaidd gerllaw?*




Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford yn annerch y dorf gyda chapten tîm rygbi Cymru, Alun Wyn Jones, a phrif hyfforddwr y tîm cenedlaethol, Warren Gatland, wrth ei ochr yn ystod dathliadau buddugoliaeth Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad tu allan i adeilad Senedd Cymru yng Nghaerdydd, Mawrth 18 2019. Hawlfraint: Llun gan Athena Pictures/Getty Images

Roedd y rhaglen o ddigwyddiadau yn defnyddio grym chwaraeon i ddyfnhau cysylltiadau diwylliannol, masnach a phobl Cymru gyda'r wlad oedd yn cynnal y gystadleuaeth.[52] O ran gwaddol, byddai strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon yn cysoni gweithgareddau ac yn sicrhau bod y cydberthnasau anffurfiol hyn a adeiladwyd drwy chwaraeon yn arwain at gydberthnasau hirach, dyfnach a mwy ffurfiol.

Mae ymateb cymuned chwaraeon Cymru i argyfwng Covid wedi bod yn glodwiw hefyd. Gan osod meincnod cyffrous ar gyfer dyfodol diplomyddiaeth chwaraeon Cymru, mae sawl arwr chwaraeon cenedlaethol fel Ryan Giggs, Jayne Ludlow, Gareth Bale, Aaron Ramsey, Helen Ward a Geraint Thomas wedi partneru'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru ar sianeli cyfryngau cymdeithasol i bwysleisio wrth gynulleidfaoedd cartref a rhyngwladol pa mor bwysig yw'r angen i #ArosGartrefAchubBywydau.

Yn yr un modd, dychwelodd chwaraewyr rygbi'r undeb rhyngwladol Cymru fel Megan Webb, Paige Randall, Angharad de Smet ac Abbie Fleming yn ôl i swyddi cefnogi yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ystod cyfnod y coronafeirws, ochr yn ochr â chanolwr Cymru a'r Western Stormers (De Affrica) sydd wedi cael 94 o gapiau, Jamie Roberts, a gynigiodd ei wasanaethau fel meddyg cymwys. Chwaraeodd lleoliadau chwaraeon arbennig Cymru ran yn yr ymateb i'r argyfwng hefyd, gyda Stadiwm Principality Caerdydd yn cael ei thrawsnewid yn Ysbyty Calon y Ddraig, Parc y Scarlets Llanelli yn cael ei droi'n Ysbyty Enfys, a Rodney Parade yng Nghasnewydd yn cael ei ailbwrpasu'n ganolfan brofi ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol. Ochr yn ochr â gweithgareddau codi arian ysbrydoledig niferus gan lawer o athletwyr a chlybiau chwaraeon ar bob lefel ar draws y wlad, mae ecosystem chwaraeon Cymru wedi cynorthwyo'n sylweddol i arddangos i'r byd bod llesiant ac adferiad Cymru yn canolbwyntio ar werthoedd cynhenid, sef cymuned, undod a chynhwysiant cymdeithasol. Wrth i'r byd symud y tu hwnt i'r cyfnod clo, i fyd ar ôl Covid, bydd yr ymagwedd "Gorau Chwarae Cyd-Chwarae" sydd wedi gwasanaethu Cymru'n dda ar y maes chwaraeon hefyd yn cynnig neges gadarnhaol a grymus i'r gymuned fyd-eang.

Efallai mai'r arwydd mwyaf calonogol ar gyfer dyfodol diplomyddiaeth chwaraeon Cymru yw cyhoeddi Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020. Mae'r strategaeth yn cyfeirio at gyfnod newydd o bartneriaethau yn llunio, gweithredu a gwerthuso polisi, ac yn dangos arwyddion o'r hyn y gellir ei alw'n ddiplomyddiaeth chwaraeon Cymru. Mae sawl cyfeiriad at chwaraeon wedi'u plethu drwy'r ddogfen strategaeth. Ochr yn ochr ag "angerdd [Cymru] dros ddiwylliant, creadigrwydd a cherddoriaeth," cyfeirir at chwaraeon fel ffactor "hanfodol" i "godi proffil Cymru fel cenedl fach, greadigol, yn llawn pobl ddawnus a chyfeillgar ar lwyfan y byd."[53]

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn addo ymgysylltu â chwaraeon drwy ymrwymiad ffurfiol i "gynnal dau gyfarfod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn cydlynnu ein gweithgareddau ar draws Llywodraeth Cymru a chyda sefydliadau eraill sy'n gweithio dros y môr, gan gynnwys llywodraeth leol, y gymdeithas ddinesig, sefydliadau chwaraeon a diwylliant, er mwyn sicrhau, pan fo'n bosibl ac yn briodol, ein bod yn gallu cydlynu gwaith ac adeiladu ar brofiad a llwyfannau rhyngwladol ein gilydd."[54] Mae'n amlwg bod arweinyddiaeth ym Mae Caerdydd yn meddwl yn arloesol am sut gellir ymgysylltu a rhyngweithio â chwaraeon, celf, cerddoriaeth a diwylliant er mwyn cynorthwyo i godi proffil Cymru dramor.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn deall ac yn awyddus i fuddsoddi mewn diplomyddiaeth chwaraeon a'i harfer. Maent hefyd yn darparu corff pwysig o wybodaeth a phrofiad i adeiladu arnynt, ac yn darparu deunyddiau astudiaeth achos i'w hadolygu ac i ddysgu ganddynt. Yn bwysicaf oll, maent yn dangos y gallai strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon sy'n manteisio ar ddoniau chwaraeon Cymru mewn modd parchus ac effeithiol fod yn gyfuniad grymus. Mae gan Cymru sylfaen gref iawn i adeiladu arni. Mewn geiriau eraill, mae Cymru'n dechrau'r gêm diplomyddiaeth chwaraeon o "sefyllfa o gryfder".[55]

# Adran 4
# Dadansoddiad o ganfyddiadau ymchwil: Cymru, chwaraeon ac ymgysylltiad rhyngwladol

**Mae dadansoddiad mwy beirniadol yn awgrymu darlun sydd ychydig yn wahanol. Roedd themâu a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro mewn sgyrsiau â rhanddeiliaid allweddol yn awgrymu bod angen deall yr ecosystem chwaraeon yn well, ac y gallai cydberthnasau fod yn fwy effeithiol. Pan ddaw at ddefnydd strategol Cymru o chwaraeon ar gyfer ymgysylltiad rhyngwladol, mae'r hanes yn un o "gyfleoedd wedi'u colli", yng ngeiriau'r Athro Laura McAllister[71]**

## 4.1 Methodoleg: gwaith maes a dadansoddiad thematig

Cafwyd safbwyntiau cadarnhaol a negyddol ynghylch y syniad o strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i Gymru drwy raglen gwaith maes estynedig. Roedd ein hastudiaeth yn defnyddio dull methodoleg cymysg ac yn defnyddio dulliau ansoddol a meintiol o gasglu data. Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019, cynhaliwyd y canlynol:

- Tri grŵp ffocws yng Nghaerdydd, Abertawe a Llundain.
- 19 cyfweliad unigol gydag arbenigwyr lleol a rhyngwladol.
- Arolwg dwyieithog ar-lein gyda 23 o ymatebwyr.
- Ymgyngoriadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru o feysydd Cysylltiadau Rhyngwladol, Masnach, Digwyddiadau Mawr a Chwaraeon.
- Ymgyngoriadau gyda swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Datblygu Rhyngwladol, yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr Adran Masnach Ryngwladol, Visit Britain a'r British Council.
- Cyflwyniadau gerbron, ac ymgyngoriadau gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd) ar 10 Gorffennaf 2019, a'r 'Gymuned Fuddiant Traws Whitehall ar Geowleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol' ar 19 Awst 2019 o dan ei chyfres o seminarau 'Archwilio grym cymell tawel'.

Ymgysylltodd y prosiect gyda dros 115 o unigolion i gyd, sy'n gweithio ar flaen y gad ym meysydd chwaraeon rhyngwladol, diplomyddiaeth a'r llywodraeth.

Er cysondeb, distyllwyd pum cwestiwn o brif ganfyddiadau'r adolygiad desg i ffurfio sail pob rhyngweithiad, sef:

1. Ydych chi'n credu bod Llywodraeth Cymru'n gwneud y defnydd gorau posib o chwaraeon fel cyfrwng ymgysylltiad rhyngwladol?
2. Pe bai Cymru'n defnyddio chwaraeon fel cyfrwng ymgysylltiad rhyngwladol, pa heriau a chyfleoedd fyddai?
3. Beth yw eich barn am y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a diwydiant chwaraeon Cymru?
4. Beth mae'r term diplomyddiaeth chwaraeon yn ei olygu i chi?
5. Pe baech chi'n cymryd rhan yng ngwaith cynllunio, cyflawni a gweithredu Strategaeth Diplomyddiaeth Chwaraeon i Gymru, beth yw'r un peth y byddai angen i ni ei wybod?

Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn wedi'u plethu drwy'r adrannau canlynol. Yn dilyn y gwaith maes, cynhaliodd y tîm ymchwil Ddadansoddiad Thematig o'r data a gasglwyd. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar nodi patrymau ystyr – neu themâu cyffredin – ar draws y set ddata. Yn eu tro, grwpiwyd y rhain o dan ddau bennawd eang – gwybodaeth a chydberthnasau.

## 4.2 Thema ymatebwyr: meithrin gwybodaeth, data, a chyd-ddealltwriaeth

Rydyn ni'n defnyddio 'gwybodaeth' i olygu corff o ymchwil penodol sydd ei angen i adeiladu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon. Mae ymchwil da, gwrthrychol sydd wedi'i adolygu gan gymheiriaid yn hanfodol ar gyfer adeiladu strategaeth, fel y daw'n amlwg.

Yn gyntaf, mae'n bwysig datrys beth mae'r label 'chwaraeon Cymru' yn ei olygu. Mae gan y cwestiwn syml hwn ateb cymhleth. Drwy gydol y gwaith maes, daeth yn amlwg nad yw chwaraeon Cymru yn fonolith â llais cyffredin a chyd-weledigaeth. Yn debyg i sectorau eraill, mae tirlun chwaraeon Cymru yn cynnwys llawer o wahanol haenau a mathau o chwaraeon, yn amrywio o'r ysgol gynradd i lefelau amatur a phroffesiynol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau antur niferus o ansawdd byd-eang, o arfordira, camp a ddatblygwyd yn Sir Benfro, i linell zip gyflyma'r byd yn Chwarel y Penrhyn, neu'r golygfeydd syfrdanol a gynigir ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (yr unig lwybr parhaus o gwmpas arfordir cyfan ar y blaned) a llwybrau beicio mynydd dirifedi.

Felly, ni ellir cyfeirio at chwaraeon Cymru fel un diwydiant chwaraeon unedig a mesuradwy. Pe bai'n ddiwydiant, byddai ganddo gorff arweiniol, setiau data, a llais cyffredin. Os rhywbeth, mae chwaraeon Cymru wedi bod yn arbennig o anodd ei fesur yn gyfannol. Er bod adroddiad blynyddol Chwaraeon Cymru ***Cyflwr y Genedl*** yn nodi pwy sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, i ba raddau, a pha fath, mae data cywir ar nifer y clybiau neu werth economaidd chwaraeon i Gymru yn anoddach ei gael.[56] Yn ogystal, nid yw'r diwydiant chwaraeon – yn wahanol i dwristiaeth – wedi'i gysylltu ag is-gyfrifon cenedlaethol,[57] sy'n ffordd llawer mwy cywir o fesur gwerth a chyfraniad chwaraeon i gymdeithas, i'r economi neu i gysylltiadau rhyngwladol. Mae lefel gyllido gan y llywodraeth hefyd yn amrywio o glwb i glwb ac o gamp i gamp. Nid yw'r diwydiant wedi cael ei fapio'n ddigidol eto, ac – fel sy'n arferol – mae cystadleuaeth fewnol rhwng chwaraeon dros chwaraewyr, arian nawdd, cefnogwyr, cynulleidfaoedd teledu, ac yn y blaen.

O'r amrywiadau hyn, mae angen mapio'n ddigidol, gwerthuso a mesur chwaraeon a'i gyfraniad i economi Cymru, gartref a thramor. Cafodd y ddadl dros fynd i'r afael â'r her hon ei chodi gan sawl ffynhonnell o'r gwaith maes, gan gynnwys Kate Evans (Pennaeth Polisi a Chyfathrebu diweddar Cymdeithas Chwaraeon Cymru), a ddywedodd:

*Mae angen mwy o ddata ansoddol a meintiol ar raddfa, cwmpas a gwerth chwaraeon Cymru, ynghyd â gwaith pellach ar ei gyfraniad i gymdeithas Cymru. Mae cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn, ond mae angen adeiladu ar hyn gydag asiantaethau partner, ac ystyried enghreifftiau byd-eang.*

Maes gwybodaeth arall sydd ar goll ar hyn o bryd yw ymchwil academaidd a gaiff ei adolygu gan gymheiriaid ar chwaraeon Cymru ac ymgysylltiad rhyngwladol, neu ddiplomyddiaeth chwaraeon mewn geiriau eraill. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw hyn o syndod o ystyried mai'r adroddiad hwn yw'r ymgais gyntaf i ddamcaniaethu ar ddiplomyddiaeth chwaraeon Cymru, ac mai dim ond yn ddiweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi creu swydd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, a hynny yn 2018. Ond mae'r ddadl yn dal i fod yn ddigyfnewid: caiff polisi da ei adeiladu ar sawl ymchwil da.

Mae cryfder prosiect Awstralia, er enghraifft, yn deillio o berthynas waith reolaidd rhwng diplomyddion sy'n gwasanaethu ac academyddion. Mae'r Adran Materion Tramor a Masnach wedi ariannu ymchwil academaidd i ddiplomyddiaeth chwaraeon yn rheolaidd, wedi cwrdd ag academyddion yn chwarterol, ac wedi bod yn gweithio gydag aelodau'r gymuned ymchwil ers 2013. Mae'r gydberthynas yn hollol ddwyochrog: mae'r Weinyddiaeth yn cael mynediad at gorff enfawr o wybodaeth sydd wedi'i darparu'n gryno drwy grŵp o gyfeillion beirniadol, tra bod academyddion yn cyfrannu at siapio polisi ac yn arddangos effaith ac ymgysylltiad â'r diwydiant.

Ategwyd y dull cydweithredol hwn yn ystod y gwaith maes. Dadleuodd Anthony Polack, sy'n ymgynghorydd rhyngwladol o Geneva, er enghraifft

*pe bai sector chwaraeon Cymru yn gweithio ar y cyd â'r llywodraeth, y byd academaidd a chymdeithas sifil (ac fel arall), gallai fod yn gyfuniad grymus. Ychwanegwch hyn at eich diwylliant, eich iaith a'ch baner cŵl, ac yna mae'n bryd credu nad oes dim byd i'w golli ar y llwyfan byd-eang.*

Yn yr modd, meddai Jim Roy, Cymro a Chyfarwyddwr PageGroup yn Canberra,

*os edrychwch chi ar y gwaith blaengar y mae Llywodraeth Awstralia yn ei wneud yn uno sectorau y tu ôl i ddiplomyddiaeth chwaraeon neu ar weithgarwch brandio'r genedl gan Seland Newydd, sy'n ymgorffori brand y Crysau Duon, yna pam ddim Cymru hefyd?*

Y trydydd maes gwybodaeth, a'r maes olaf, sy'n brin ar hyn o bryd yw diffyg gweledigaeth gyffredin; strategaeth a gweithdrefnau gweithredol yn ymwneud â chysyniad diplomyddiaeth chwaraeon Cymru. Petai Gweinidog am gynghreirio polisi â digwyddiad chwaraeon, er enghraifft, does dim gweithdrefn i'w dilyn, dim cyd-weledigaeth sy'n cynghreirio'r llywodraeth â diddordebau chwaraeon, na chorff o ddata i'w ddefnyddio.

Yn yr un modd, petai corff chwaraeon yn dymuno gweithio gyda'r Llywodraeth, gyda phwy y dylai gysylltu? Er y byddai rhai yn dadlau bod chwaraeon yn dod o dan strategaeth digwyddiadau mawr, bydden ni'n ymateb bod chwaraeon yn fwy na digwyddiadau mawr yn unig. Nid yn unig hynny, mae chwaraeon yn cael ei 'golli' pan gaiff ei gladdu mewn strategaethau cyffredinol, ac o ystyried ei le yng nghymdeithas a diwylliant Cymru, mae'n haeddu ffocws a sylw unigol a phwrpasol.

## 4.3 Thema ymatebwyr: Cydberthnasau yn yr ecosystem chwaraeon

Y pryder mwyaf a godwyd yn y gwaith maes oedd y cydberthnasau yn ecosystem chwaraeon Cymru a'r rhwydweithiau sy'n bodoli rhwng chwaraeon, y llywodraeth a sefydliadau ac unigolion cysylltiedig eraill. Caniataodd yr ymchwil i ni fapio'r rhain a grwpio rhwydweithiau allweddol.

**…rhwng clybiau chwaraeon, llywodraeth a sefydliadau Cymru.** I ail-adrodd, mae chwaraeon Cymru'n amrywiol ac yn aml-haenog, ac mae'r grym wedi'i ddosbarthu'n anghyfartal.

**…rhwng chwaraeon a ffurfiau eraill ar rym cymell tawel Cymru** fel y celfyddydau, cerddoriaeth, chwaraeon, addysg a thwristiaeth.

**…rhwng Chwaraeon Cymru a UK Sport.** Roedd y gydberthynas hon yn aneglur ac yn anodd ei deall. Gofynnwyd cwestiynau dilynol – a yw UK Sport yn eirioli'n rhyngwladol ar ran Cymru? Sut mae *Strategaeth Cysylltiadau Rhyngwladol (2017-2021)* UK Sport yn berthnasol i Gymru? Pwy sydd â'r gyllideb ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol? Pwy sy'n gwneud ceisiadau ar gyfer mega-ddigwyddiadau Cymru? ac yn y blaen – ac nid oes atebion i'r rhain yn dal i fod. Pe bai Cymru'n datblygu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon bwrpasol, mae'n anochel y byddai'r cwestiwn ynghylch perchnogaeth yn codi.

**…rhwng chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru**. Roedd rhywfaint o ddrwgdybiaeth ynghylch y syniad y dylai'r llywodraeth ddefnyddio chwaraeon ar gyfer ymgysylltiad rhyngwladol, neu deimlad o déjà vu, a bod y maes chwaraeon a'r llywodraeth wedi bod ar hyd y llwybr hwn o'r blaen. Nid oedd manteision cydweithio gyda'r llywodraeth yn glir i chwaraeon, o gwbl.

**…rhwng Llywodraeth Cymru a maes chwaraeon Cymru**. Roedd hwn yn faes cymhleth y gellir ei grynhoi o dan bum prif thema:

1. Mae llawer o adrannau Llywodraeth Cymru – yn enwedig Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach a Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth – yn gweithio gyda maes chwaraeon eisoes i wireddu amcanion polisi, er mai fesul achos mae hynny'n digwydd.
2. Roedd rhai'n teimlo y dylai'r llywodraeth gadw draw oddi wrth ddulliau heb eu profi fel diplomyddiaeth chwaraeon, a pharhau i ganolbwyntio ar swyddogaethau traddodiadol a gwleidyddol, fel masnach, lles, addysg, diogelwch, cynhwysiant, llesiant, trefn a chyfiawnder.
3. Codwyd pryderon ymarferol sylweddol ym mhob trafodaeth gyda'r llywodraeth: pwy fyddai'n ariannu rhaglen o'r fath? O ble byddai'r adnoddau dynol yn dod? Byddai angen ffurfio pwyllgorau a gweithgorau, dosbarthu cofnodion, rhannu dogfennau ar hyd y rhengoedd awdurdod. Ar ôl llunio'r strategaeth, byddai angen ei gwerthuso a'i monitro hefyd, gwaith a fyddai, eto, yn gofyn am adnoddau fel amser, arian a phobl.
4. Fel y gofynnodd cynrychiolwyr o'r diwydiant chwaraeon 'beth sydd yn hyn i ni?', gofynnodd pobl o'r llywodraeth yr un peth. Byddai angen ystyried a chyfleu yn ofalus beth yw datganiad gwerth unrhyw strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i'r llywodraeth.
5. Anhawster yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cyfleoedd allweddol. Fel y nododd Neil Ward, cyn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, "nid yw Llywodraeth Cymru bob amser wedi gweithio gyda ni mewn ffordd ddigon parod pan fyddwn ni'n ymgysylltu â gwledydd eraill, UEFA, FIFA a chymdeithasau pêl-droed eraill ynghylch gemau pêl-droed rhyngwladol – yn anffodus, i raddau helaeth mae'n achos o golli cyfleoedd."

**…rhwng Cymru a San Steffan.** Cafodd realiti strwythurol, sofran a chyfreithiol y gydberthynas hon dros ganrifoedd, ynghyd â pharamedrau a osodwyd ym 1998, ac eto yn 2006 gan Ddeddf Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth ddatganoli ddilynol, eu codi'n aml yn ystod trafodaethau gyda'r llywodraeth. Roedd ymdeimlad o ofal yn ffrwyno'r brwdfrydedd tuag at y prosiect hwn. Ar gyfer cyfranogwyr yn y llywodraeth, roedd y neges yn glir: bydden nhw'n cefnogi strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon pe bai'n trosoli'n strategol i Gymru o strategaethau diplomyddiaeth gyhoeddus amrywiol San Steffan, a phe na byddai'n cynhyrfu hunaniaeth genedlaethol. Roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud â sut byddai modd gweithredu hyn.

## 4.4 Crynodeb o waith maes

Roedd y rhan fwyaf o sgyrsiau yn canolbwyntio ar realiti ymarferol 'defnyddio' chwaraeon: faint byddai hyn yn costio? Sut mae llwyddiant yn edrych? Sut byddai unrhyw ddarpar strategaeth yn cael ei mesur a'i gwerthuso? Sut byddai hyn o fudd economaidd i Gymru? Sut byddai'n ychwanegu gwerth at bolisïau presennol fel ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol***, neu raglen ***Cymru ac Affrica***? Mae'r ystyriaethau hyn yn werthfawr, yn enwedig ar gyfer dangos yr heriau gweithredol a fyddai'n wynebu unrhyw gynllun ar gyfer strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon bosib i Gymru.

Roedd y rhan fwyaf yn gadarnhaol ynghylch gweld Cymru'n 'gwneud mwy' gyda chwaraeon fel ffordd o gyfnerthu ymgysylltiad rhyngwladol. Roedd hyn yn adlewyrchu casgliad y daethpwyd iddo yn ***Strategaeth Arddangos Celfyddydau Cymru yn Rhyngwladol*** British Council Cymru hefyd, sef bod Cymru wedi bod yn "dawel" am yn rhy hir, a bod angen iddi fod "yn fwy eglur a beiddgar" o ran mentrau grym cymell tawel arloesol.[58]

Crybwyllodd yr ymatebwyr yr asedau sydd gan Gymru o ran ei sêr chwaraeon byd-enwog. Meddai Bryn Law, darlledwr, awdur, darlithydd ac aelod o dîm Cwrs Hyfforddi Cymdeithas Bêl-droed Cymru:

*Mae rhai chwaraewyr yng ngharfan bêl-droed Cymru, fel Aaron Ramsay, yn gweithredu fel 'diplomyddion pêl-droed' i raddau eisoes. Mae cyfle euraidd gan awdurdodau Cymru i weithio gyda nhw mewn ffordd fwy strwythuredig. Mae ein gwlad yn bwysig iawn iddyn nhw, felly pam ddim dechrau'r sgwrs yma a gweld beth sy'n bosib?*

Soniodd ymatebwyr eraill am y ffordd y gall Cymru gynghreirio ei sector chwaraeon â'i hamcanion a'i nodau polisi i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Dywedodd ymatebydd di-enw i'r arolwg:

*Gyda buddsoddi a chynllunio, mae cyfle euraidd i Gymru gael ei gweld fel arweinydd byd o ran cynhwysiant cymdeithasol. Pan fydda i'n ystyried arloeswyr gwreiddiol chwaraeon anabledd a Pharalympig, fel Chris Hallam a Tanni Grey-Thompson, mae ganddon ni dreftadaeth gyfoethog o athletwyr elitaidd, sy'n parhau i fod yn ysbrydoliaeth i lawer. Mae digwyddiadau fel Cwpan y Byd Digartref yng Nghaerdydd yn dangos beth sy'n bosib, a gallai gyd-fynd yn dda gyda'n dyheadau gwleidyddol drwy bethau fel Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.*

Yn ogystal, cytunai pawb fod chwaraeon yn hanfodol i falchder, brand a chenedligrwydd Cymru, a'i fod yn ddiwydiant sy'n werth ei ymgysylltu, ei astudio a'i gynrychioli. Yn ystod y gwaith maes, cafodd y farn hon ei chyfleu orau gan Mike Ruddock, cyn hyfforddwr tîm rygbi'r undeb cenedlaethol Cymru. Dadleuodd;

*mae chwaraeon yn gallu gweithredu fel catalydd i dreiddio i feddyliau cynulleidfa fyd-eang gyda chipluniau diwylliannol ac uchafbwyntiau cenedl chwaraeon sy'n wirioneddol falch. Cenedl sydd ag iaith, diwylliant, hunaniaeth a gwerthoedd ei hunan. Cenedl sy'n falch o fod yn Gymry, ac sy'n gallu hyrwyddo ei diwylliant yn llwyddiannus, hynny yw, gwlad o groeso, gwlad y gân ac Eisteddfodau, gwlad o gyfeillgarwch a gwlad o bobl weithgar.*

Nododd llawer o ymatebwyr fod gan Gymru asedau grym cymell tawel sylweddol, ond nad oedd pwynt ceisio manteisio ar y grym hwnnw os nad oedd cyfeiriad strategol, arweinyddiaeth, neu gapten ar y tîm. Mae'n rhaid i gynaliadwyedd ddisodli natur wasgaredig y cydberthnasau presennol rhwng y llywodraeth, Chwaraeon Cymru a rhanddeiliaid o fyd chwaraeon hefyd.

Yn gryno, roedd mwy o themâu cyffredin yn codi o'n gwaith maes nag esgyrn cynnen amhosib eu datrys. Doedd neb yn gwrthwynebu'r prosiect hwn, ac roedd y rhan fwyaf yn ymddiddori yn y syniad o gydweithio, cyhyd â bod cyfnewid dwyochorg a diffiniedig wrth wneud hynny. Y prif bryder oedd ***sut*** mae troi syniad cyffrous yn realiti mesuradwy a chynaliadwy sy'n ychwanegu gwerth at baraddiplomyddiaeth ac enw da rhyngwladol Cymru? Fel y mae'r adran ganlynol yn ei awgrymu, gellir goresgyn y pryderon ymarferol hyn gyda datrysiadau ymarferol.



Aelodau o dîm rygbi Cymru, Gareth Edwards (ar y chwith) a Barry John (ail o'r dde) yn rhannu jôc gyda swyddogion tollau Ffrengig wrth gyrraedd maes awyr Le Bourget ar gyfer gêm ryngwladol ym Mhencampwriaeth y Pum Gwlad yn Ffrainc – Mawrth 26 1971. Hawlfraint: Llun gan STF / AFP



Ras Ironman Cymru. Dinbych-y-pysgod, Medi 2019

# Adran 5
# Argymhellion ar gyfer symud tuag at strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon

**Mae'r adran hon yn cynnig cyfres o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y camau nesaf i Lywodraeth Cymru a sefydliadau chwaraeon, pe baen nhw'n dymuno buddsoddi mewn cynllun strategol. Gyda data economaidd da, dylai fod gan y maes chwaraeon ei strategaeth arbenigol ei hun, yn eistedd o dan strategaeth ryngwladol. Mae bod â strategaeth neu gynllun o'r fath yn hanfodol os yw dyfodol diplomyddiaeth chwaraeon am gael ei wireddu.**

## 5.1 Mesur a digideiddio'r ased

Cyn y gellir manteisio ar chwaraeon, mae'n bwysig deall maint, natur a gwerth yr ased. Ar hyn o bryd, mae diffyg data topograffig, 'mawr' ac economaidd ar chwaraeon. Mae hyn wedi arwain at ddryswch am werth honedig cyfraniad chwaraeon i gymdeithas, economi a phroffil rhyngwladol Cymru. Mae'r data hwn yn hanfodol os yw chwaraeon i gael ei ddefnyddio mewn modd strategol, yn enwedig o ran mesur cynnydd, neu yn yr achos gwaethaf, dirywiad. Mewn geiriau eraill, mae'n bwysig profi'n empirig bod chwaraeon o bwys.[59]

Mae datrysiad, unwaith eto, yn dod drwy arferion gorau ac ysgolheictod. O ran y cyntaf, mae'r gwaith a gyflawnwyd yn ddiweddar gan Chwaraeon Cymru a Phrifysgol Sheffield Hallam ar effaith ariannol chwaraeon yn erbyn llesiant cyffredinol y boblogaeth yn rhoi templed da o astudiaeth ddomestig y gellir ei chymhwyso.[60] At hynny, er mai manteision corfforol chwaraeon sy'n denu'r mwyaf o sylw gan academyddion chwaraeon, mae corff o waith cynyddol yn ymwneud â meysydd eraill o fesur gwerth, fel iechyd meddwl, manteision economaidd, a chyfraniad at gynnyrch mewnwladol crynswth, twristiaeth a digwyddiadau.[61] Gellir dewis o blith nifer o 'ddulliau ar lefel poblogaeth'[62] fodd bynnag, rydym yn argymell creu Is-Gyfrif Chwaraeon[63], un sy'n "adeiladu fframwaith ystadegol i fesur gwerth diwydiant penodol, sef y sector chwaraeon yn yr achos hwn."[64]

Gellid hefyd wneud defnydd gwell o adnoddau'r oes ddigidol. Byddai rhedeg cod, mapio a defnyddio data mawr yn creu darlun mwy cywir o ecosystem a thirlun chwaraeon, a byddai cydberthynas agosach rhwng chwaraeon a'r llywodraeth, fel y gwelwyd ar ôl llunio strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon Awstralia, yn arwain at ddefnydd gwell o ddata a gwybodaeth.

## 5.2 Ymchwil

Mae'r math hwn o adroddiad yn gam cyntaf tuag at adeiladu ecosystem diplomyddiaeth chwaraeon, fodd bynnag nid yw hyn yn datblygu dros nos. Nid yw creu strategaeth sy'n adlewyrchu'r sgyrsiau amrywiol sy'n amlwg yn yr adroddiad hwn yn dasg hawdd. Argymhellir y dylai rhanddeiliaid allweddol ymgysylltu ag ymchwilwyr i fynd i'r afael â'r meysydd hollbwysig canlynol:

- Cynllunio strategaethau diplomyddiaeth chwaraeon
- Gweithredu strategaethau diplomyddiaeth chwaraeon
- Mesur a gwerthuso
- Sut beth gallai strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon Cymru fod
- Mapio ecosystem chwaraeon Cymru yn ddigidol, gyda'r nod o wella cydberthnasau
- Meintoli gwerth chwaraeon i Gymru, gartref a thramor
- Ei gwneud yn glir sut mae chwaraeon yn berthnasol i *Strategaeth Ryngwladol 2020*, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, a rhaglen *Cymru ac Affrica*
- Meysydd arloesol o ran damcaniaeth ac arfer diplomyddiaeth chwaraeon (gweler argymhelliad 9)

Mae gan Gymru rai o sefydliadau addysgol ac academyddion gorau'r byd. Maen nhw'n awyddus i ddod yn bartneriaid. Gellir cynnal ymchwil academaidd o'r fath ochr yn ochr â'r camau gweithredol sydd eu hangen i greu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i Gymru. Yn wir, mae llwybr ymchwil-i-arfer ffyniannus yn ffordd dda o wreiddio'r math o bartneriaethau sydd eu hangen i lwyddo ym maes diplomyddiaeth chwaraeon.

## 5.3 Ffurfio gweithgor cenedlaethol

Er mwyn goresgyn yr heriau cydberthynas a ddisgrifiwyd yn adran 4, mae'n bwysig ffurfio gweithgor diplomyddiaeth chwaraeon cyn gynted â phosib. Dylai gynnwys cynrychiolwyr o faes chwaraeon, Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru a phartïon perthnasol eraill sydd ag arbenigedd ryngwladol a fyddai'n elwa ar gysylltiadau diplomyddol (prifysgolion, cyrff anllywodraethol, cyrff cyhoeddus ac ati). Dylid cynnwys ac ymgynghori â phobl ifanc a chynrychiolwyr e-chwaraeon a phara-gampau hefyd.

Diben y grŵp hwn fyddai cyfleu gwerth chwaraeon Cymru i frand, gweithgareddau ymgysylltu a delwedd ryngwladol Cymru, ynghyd â phennu'r logisteg, yr adnoddau a'r amser sydd eu hangen i wireddu dyfodol dychmygus o'r fath. Byddai'r gweithgor hwn hefyd yn cynrychioli cyfnod newydd o bartneriaeth chwaraeon-i-lywodraeth ym maes ymgysylltu rhyngwladol. Byddai hefyd yn gyfrifol am sganio'r gorwel er mwyn casglu, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth i gefnogi gwaith penderfynu o ran mentrau diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol.

Mae gweithio fel tîm yn cynnig llawer o fanteision amlwg: lleihad mewn costau drwy integreiddio systemau, ymdeimlad o rannu cenhadaeth, gwybodaeth ac adnoddau, ac amgylchedd dysgu dwyochrog (lle gall y llywodraeth ddysgu gan faes chwaraeon, a maes chwaraeon gan y llywodraeth). Mae undod yn bwysig, yn enwedig ym maes cysylltiadau rhyngwladol. Gyda phob cam, mae'n rhaid i Gymru gystadlu gyda rhanbarthau a chenhedloedd eraill am ddoniau, digwyddiadau a medalau. Mae'n rhaid dysgu rhannu adnoddau, gwybodaeth, rhwydweithiau, cysylltiadau, arian, pobl, ac arbenigedd wrth wneud cais am gemau neu dwrnameintiau, neu arfer gorau mewn hyfforddi, gwaith datblygu, neu glymu chwaraeon â'r gwaith y mae Croeso Cymru'n ei wneud. Mae'r hyn sy'n wir ym maes chwaraeon rhyngwladol hefyd yn wir ym maes cysylltiadau rhyngwladol: allan fan yna, yn y gofod cystadleuol ac anarchaidd, mae Cymru'n wynebu'r byd.

## 5.4 Dysgu gan arferion gorau

Mae enghreifftiau da o greu polisi a strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon y gall Cymru ddysgu ganddynt. Disgrifiwyd y broses y tu ôl i greu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon gyntaf Awstralia ynghynt yn yr adroddiad hwn. Pan ddaeth y strategaeth honno i ben yn 2018, penderfynodd Llywodraeth Awstralia fuddsoddi mewn ail strategaeth. Dan yr enw ***Diplomyddiaeth Chwaraeon 2030***, fe'i lansiwyd yn Sydney ym mis Chwefror 2019 gan y Gweinidog Chwaraeon a Menywod, Marise Payne. Roedd nifer o wahaniaethau rhwng sut crëwyd y strategaeth gyntaf a'r ail, a allai fod o fudd i Gymru eu nodi:

- Comisiynodd Llywodraeth Awstralia adolygiad desg gwrthrychol wedi'i ariannu'n llwyr ar gyfer y strategaeth gyntaf. Cyflawnwyd yr adolygiad hwn gan banel arbenigol o academyddion Awstralia o feysydd Gwyddorau Chwaraeon, Astudiaethau Diplomyddol a Chysylltiadau Rhyngwladol.
- Ysgrifennwyd y strategaeth gyntaf yn fewnol (yn y senedd), ond ysgrifennwyd yr ail mewn ymgynghoriad â'r diwydiant chwaraeon. Aethpwyd o ymagwedd llywodraeth gyfan i ymagwedd cymdeithas gyfan, neu i ddefnyddio'r term academaidd cywir, ymgysylltwyd â'r "system ddiplomyddol genedlaethol".[65]
- Ategwyd yr ymagwedd hon â phroses ymgynghori genedlaethol, a gynhaliwyd drwy gydol mis Awst 2018. Aeth Llywodraeth Awstralia ati i noddi, trefnu ac arwain cyfres o drafodaethau bord gron ym mhrifddinasoedd pob talaith (Brisbane, Darwin, Perth, Adelaide, Sydney, Melbourne a Hobart).
- Ni roddwyd unrhyw gyfyngiadau ar yr ystod o randdeiliaid a wahoddwyd i'r cyfarfodydd bord gron. Roedd yr ystod o sefydliadau ac unigolion a fynychodd yn amrywiol: asiantaethau llywodraeth ffederal, asiantaethau llywodraethau taleithiol, cyrff llywodraethu chwaraeon rhyngwladol a chenedlaethol, busnesau chwaraeon o'r sector preifat, prifysgolion, swyddogion consylaidd a llu o gyn-athletwyr elitaidd.
- Seiliwyd *adroddiad Diplomyddiaeth Chwaraeon 2030* ar bedair blaenoriaeth glir: grymuso athletwyr a chodau chwaraeon Awstralia i gynrychioli Awstralia yn fyd-eang, gan gynnwys Asia a Chefnfor India a'r Môr Tawel; annog codau chwaraeon Awstralia i feithrin cysylltiadau gyda chymdogion yn y rhanbarth; cynyddu cyfleoedd buddsoddi a thwristiaeth drwy chwaraeon; a defnyddio chwaraeon i gryfhau cymunedau yng Nghefnfor India a'r Môr Tawel.
- Roedd cred ganolog yn ffurfio asgwrn cefn yr ail strategaeth: bod chwaraeon yn helpu i gyflawni nodau polisi tramor traddodiadol Awstralia.[66] O ganlyniad i'r ymgynghoriadau cenedlaethol, daeth yn glir bod chwaraeon Awstralia eisoes yn hwyluso nodau polisi tramor penodol Awstralia. Mae chwaraeon yn cyfrannu'n uniongyrchol at o leiaf wyth nod a grybwyllwyd yn ***y Papur Gwyn ar Bolisi Tramor*** 2017: cynrychioli Awstralia, hyrwyddo Awstralia, ymgysylltu mewn fforymau amlochrog, helpu eraill, archwilio'r byd, datgloi cyfleoedd economaidd, cryfhau cynghreiriau pwysig, a chreu cydberthnasau newydd.
- Byddai "oes newydd o bartneriaeth" rhwng maes chwaraeon a'r llywodraeth yn ddilysnod yn strategaeth ***Diplomyddiaeth Chwaraeon 2030***. Gallai'r llywodraeth ddysgu gan chwaraeon, a chwaraeon gan y llywodraeth.
- Er i'r strategaeth gyntaf gael ei lansio yn Nhŷ'r Senedd yn Canberra, lansiwyd yr ail yn nhwrnamaint Rygbi Saith Bob Ochr Menywod y Byd yn Sydney, o flaen cynulleidfa a oedd yn llawer mwy amrywiol a chynhwysol, ac a oedd yn cynnwys pobl a wahoddwyd o'r ymgyngoriadau cenedlaethol.

Yn gryno, fe wrandawodd Llywodraeth Awstralia ar safbwyntiau pobl o faes chwaraeon, academyddion, ymarferwyr chwaraeon ar gyfer datblygu, busnesau chwaraeon, gweinyddwyr, cefnogwyr ac ati – ac ymgorfforwyd y safbwyntiau hynny. Sylweddolodd y Llywodraeth, os oedd yr ail strategaeth i weithio'n effeithiol, bod ei llwyddiant yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant chwaraeon.[67] Fel arweinydd y panel academaidd arbenigol, meddai'r Athro Caitlin Byrne, "cafwyd cyfnod hir o ymgynghori cenedlaethol gyda'r diwydiant chwaraeon cyn i un gair o'r strategaeth newydd gael ei ysgrifennu. Mae'n rhaid i ni gofio mai enw'r strategaeth yw diplomyddiaeth *chwaraeon*."[68] Pe bai Cymru'n penderfynu dilyn llwybr tebyg, does dim angen dyfeisio rhywbeth hollol newydd. Byddai'n werth cysylltu â Llysgenhadaeth Awstralia yn Llundain, gwledydd eraill sy'n gweithredu yn y gofod hwn, a chyrff chwaraeon ledled gwledydd Prydain i ganfod cyfleoedd ar gyfer partneriaethau dysgu.

## 5.5 Cyfathrebu gwerth diplomyddiaeth chwaraeon i fuddiannau cenedlaethol

Mae angen cyfleu datganiad gwerth diplomyddiaeth chwaraeon yn glir i'r llywodraeth. Dylid derbyn bod chwaraeon yn ategu ac yn gwella cynrychiolaeth swyddogol Cymru dramor, yn ogystal â dylanwadu'n gadarnhaol ar ganfyddiadau dramor.

Mae llawer o fabolgampwyr, hyfforddwyr, swyddogion a gweinyddwyr Cymru eisoes yn ymgysylltu dramor gydag arweinwyr gwleidyddol, busnes a chymunedol hynod ddylanwadol. Maen nhw mewn sefyllfa dda i gyflwyno pobl i Lywodraeth Cymru.

Gall chwaraeon agor drysau i farchnadoedd newydd, sefydlu cysylltiadau â phartneriaid masnachu rhyngwladol, a hyrwyddo gallu a hygrededd Cymru fel lle ar gyfer addysg, twristiaeth neu fasnach.

Fel y nododd Neil Ward, cyn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, yn ystod grŵp ffocws, mae lle i'r llywodraeth a chwaraeon weithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol. Nododd Mr Ward;

*Gallai pêl-droed Cymru gynnig llwyfan dyfnach i hyrwyddo Cymru, busnes rhyngwladol, ymgysylltiad rhyngwladol ehangach ac yn y blaen. Fodd bynnag, byddai angen ystyried hyn yn ofalus, a byddai angen sicrhau bod elfennau sy'n fanteisiol i'r ddwy ochr er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru.*

Yn ogystal, mae rhwydweithiau chwaraeon Cymru yn creu cysylltiadau rhwng pobl, a allai, yn eu tro, gefnogi Strategaeth Ryngwladol 2020. Mae chwaraeon yn meithrin cyfeillgarwch, yn cysylltu cymunedau gwasgaredig, ac yn creu rhwydweithiau o gwmpas y byd. Yn aml, mae'r cysylltiadau hyn yn para am oes, gan hyrwyddo canfyddiadau cywir a chredadwy o Gymru yn ddi-ymdrech.

## 5.6 Cyfathrebu gwerth diplomyddiaeth chwaraeon i faes chwaraeon

Mae angen i'r datganiad gwerth fod yn ddwyochrog. Mae hi'r un mor bwysig cyfleu gwerth diplomyddiaeth chwaraeon i faes chwaraeon ag yw hi i'r llywodraeth. Byddai cydberthynas agosach a mwy systematig rhwng maes chwaraeon a'r llywodraeth, sy'n edrych tua'r dyfodol ac yn annog dulliau cynllunio cydweithredol, yn golygu y gallai chwaraeon a'r llywodraeth elwa ar sgiliau, rhwydweithiau a gallu ei gilydd.

Gall gweithio gyda'r llywodraeth ychwanegu gwerth i chwaraeon, yn enwedig o ran hybu dylanwad chwaraeon a chynnig mynediad at rwydweithiau grymus. Mewn geiriau eraill, yn yr un ffordd ag y gall maes chwaraeon agor drysau i'r llywodraeth, gall y llywodraeth agor drysau i faes chwaraeon. Gall defnyddio'r rhwydweithiau diplomyddol y mae gan y llywodraeth fynediad atynt fod o fantais wrth negodi partneriaethau, ceisio am ddigwyddiadau, sicrhau safleoedd llywodraethu, a meithrin cysylltiadau busnes.

Fel partneriaid o fri, gall Llywodraeth Cymru drefnu digwyddiadau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, megis ciniawau neu dderbyniadau llysgenhadaeth, curadu rhestr gwahoddedigion i gynnwys rhanddeiliaid o fydoedd busnes rhyngwladol, partneriaid y wasg, arweinwyr rhyngwladol ym maes rheoli, hyfforddi a thechnoleg chwaraeon. Mae'r un swyddogaeth froceru yn berthnasol mewn cyd-destun cartref, hynny yw, meithrin cydberthnasau dwyochrog gwell rhwng cyrff chwaraeon Cymru, ynghyd â chysylltiadau â phartneriaid diwylliannol, celfyddydol ac addysgol eraill.

Mae'r llywodraeth hefyd yn ffynhonnell o arbenigedd ac adnoddau, yn enwedig wrth wneud ceisiadau am ddigwyddiadau, negodi argyfyngau rhyngwladol, a hyrwyddo rhaglenni chwaraeon arbenigol a chysylltiedig megis cyfnewidfeydd hyfforddi gyda chenhedloedd eraill.

Gyda golwg eang ar draws y sector, gall y llywodraeth nodi a chydlynu cysondebau ym maes chwaraeon ar gyfer datblygu, neu mewn digwyddiadau diwylliannol ac addysg cofleidiol, fel yn y bartneriaeth rhwng Rygbi Cymru a Llywodraeth Cymru yn Japan yn 2019. Mae gwaith tîm yn helpu i greu cyffro o gwmpas Cymru, gartref ac yn rhyngwladol, ar y cae ac oddi arno.

Mae gan y Llywodraeth arbenigedd ym maes cysylltiadau rhyngwladol, y gellir ei gynnig i weinyddwyr chwaraeon, yn enwedig mewn sefydliadau bach a chanolig, ar ffurf hyfforddiant diplomyddol wedi'i deilwra ar weithio'n rhyngwladol, negodi, cynrychioli a chyfathrebu. Nid yn unig byddai cyfres o gyrsiau hyfforddi yn cynorthwyo ffederasiynau chwaraeon Cymru i negodi gweithgareddau'n fwy strategol, fel gemau rhyngwladol, seddi ar gyrff chwaraeon mawr, a dylanwadu ar reoliadau a phenderfyniadau chwaraeon, gallai hefyd atgyfnerthu arlwy a hygrededd y genedl i gynnal digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol wrth wneud cais am ddigwyddiadau mawr.

Gallai'r ymagwedd hon fod yn fwyaf manteisiol i ffederasiynau chwaraeon canolig eu maint, fel Triathlon Cymru neu Athletau Cymru, sydd ag adnoddau cymharol gyfyngedig i'w cynnig i weithgarwch rhyngwladol, ond sy'n dal i ddenu digwyddiadau o safon byd-eang i Gymru. Gellid datblygu rhwydwaith mentora a hyfforddi diplomyddiaeth chwaraeon dros amser fel bod modd rhannu adnoddau, gwybodaeth a sgiliau ar draws tirlun chwaraeon Cymru (sydd eto'n allweddol i ymagwedd a mantra Tîm Cymru).

Mae gan ffederasiynau mwy fel Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru ôl-troed ac arbenigedd datblygedig o ran gweithgarwch diplomyddiaeth chwaraeon byd-eang. Dylid ystyried swydd cysylltiadau rhyngwladol a llywodraeth wedi'i ariannu ar y cyd ym mhob ffederasiwn, er mwyn sicrhau y caiff cyfleoedd eu cynyddu, a bod addysg a chyfleoedd yn cael eu defnyddio i'r eithaf gan bawb. Byddai hyn yn ddull mwy cynhwysol.

## 5.7 Enwi capten y tîm

Pe bai Cymru'n gweld rhinwedd diplomyddiaeth chwaraeon, yna pwy fyddai'n gweithredu fel canolbwynt a cheidwad? Rydym yn argymell y gallai Chwaraeon Cymru, pe bai'n cael adnoddau digonol, ehangu ei genhadaeth, ei gwmpas a'i gapasiti i'r maes rhyngwladol. Mae Chwaraeon Cymru eisoes yn rhan ganolog o'r ecosystem gartref, ac mae mewn sefyllfa ddelfrydol i weithio gyda UK Sport i drefnu, hyrwyddo, cynllunio, gweithredu a mesur unrhyw ymdrechion diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol.

Gallai Chwaraeon Cymru arwain ar ddiplomyddiaeth chwaraeon, gan weithredu fel sefydliad sy'n pontio rhwng ffiniau ac sy'n gyfrifol am gynrychioli a gweithio gyda grwpiau amrywiol o randdeiliaid yn ecosystem chwaraeon Cymru. Gellid darparu sgiliau, dealltwriaeth, rhagolwg, arbenigedd a chapasiti rhyngwladol gan felinau trafod, UK Sport, y British Council, sefydliadau academaidd ac unigolion.

At hynny, mae gan Chwaraeon Cymru hanes o arloesi. Mae wedi arwain y ffordd drwy ddefnyddio chwaraeon i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru, yn ogystal â materion diogelwch dynol eraill. Byddai ffurfio gweithgor i ddatblygu strategaeth a dadansoddi'r adnoddau sydd eu hangen ar Chwaraeon Cymru i archwilio'r posibiliad hwn yn gyfrwng i ddechrau'r broses hon.

## 5.8 Sicrhau cwpl o rediadau cynnar

Os caiff strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon ei chreu, mae'n bwysig buddsoddi mewn ychydig o brosiectau proffil uchel a fyddai'n amlygu Cymru o ran polisi chwaraeon arloesol. Ymhlith y meysydd newydd a chyffrous o ran damcaniaeth ac arfer a awgrymwyd gan arbenigwyr diplomyddiaeth chwaraeon byd-eang ac uchel eu parch y Bwrdd Ymgynghori, roedd:

1. Menywod a diplomyddiaeth chwaraeon: beth yw'r berthynas rhwng menywod, chwaraeon a diplomyddiaeth?
2. Diplomyddiaeth e-chwaraeon: er gwaethaf y cynnydd cyflym mewn e-chwaraeon, does neb wedi'i archwilio o safbwynt diplomyddol eto. Byddai hyn yn astudiaeth flaengar mewn maes lle mae Gareth Bale wedi lansio ei dîm e-chwaraeon proffesiynol ei hun yn ddiweddar (Ellevens Esports), ac mae ei gyd-chwaraewr rhyngwladol, Rabbi Matondo, wedi cynrychioli Cymru ar-lein yn Nhwrnamaint Cyfeillgar Stay and Play eNations FIFA 2020. Mae e-chwaraeon yn sicr wedi profi ei berthnasedd a'i werth yn ystod yr argyfwng Covid diweddar.
3. Dylid blaenoriaethu cynyddu nifer y Cymry ar bwyllgorau gweithredol cyfundrefnau chwaraeon cenedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol.
4. Diplomyddion mewn tracwisg: Gallai Cymru fod y genedl gyntaf yn y byd i noddi, astudio a gweithredu'r syniad cyffrous hwn.
5. Gallai Cymru roi rhai o'r prosesau a amlinellwyd yn rhan dau ar waith, a dilyn esiampl Ffrainc i wneud cais am ddigwyddiadau a thwrnameintiau chwaraeon rhyngwladol. Nodi digwyddiadau unigryw, haen ganolog (fel cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad), ac efallai un neu ddau fega-ddigwyddiad sydd â siawns realistig o lwyddo.
6. Er enghraifft, yn 2014 cynhaliodd Swydd Efrog Grand Départ y Tour de France. Gwelwyd tair miliwn a hanner o bobl ar hyd y ffyrdd, gyda 18.6 miliwn o bobl yn gwylio ar y teledu (cynulleidfa gwledydd Prydain), a chyfrifwyd bod ei effaith economaidd yn £128 miliwn.[69] Byddai gwneud cais a chynnal digwyddiad o'r fath yn sicrhau enw da Cymru am lwyfannu digwyddiadau chwaraeon o ansawdd byd-eang, gan arddangos Parc Cenedlaethol Eryri a'r gogledd-orllewin, er enghraifft. Byddai hefyd yn gyfle unigryw i lansio deorfa chwaraeon-busnes i alluogi cynllunio strategol cyn ac ar ôl digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru a thramor.
7. Denu uwchgynadleddau chwaraeon ffurfiol i Gymru. Yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol yng Ngwesty'r Celtic Manor, mae gan Gymru gyfleuster o ansawdd byd-eang ar gyfer cynnal uwchgynadleddau diplomyddiaeth chwaraeon. Byddai cynnal cyngres UEFA, FIFA neu IOC, neu SportAccord (uwchgynhadledd chwaraeon a busnes fwya'r byd), yn dilysu Cymru ymhellach ar y llwyfan byd-eang ac, yn bwysicach fyth, gallai helpu ein siawns o gynyddu cynrychiolaeth Cymru ar gyrff chwaraeon rhyngwladol nodedig. Drwy gynnal uwchgynhadledd NATO, mae Cymru wedi dangos y gall gynnal digwyddiadau o'r statws hwn.
8. Mae gan Undeb Rygbi Cymru a'r Urdd, sef y mudiad ieuenctid mwyaf o'i fath yn Ewrop, bartneriaeth ers tro ar gyfer cynnal twrnameintiau rygbi saith bob ochr blynyddol. Yng ngoleuni Covid-19, cynigir y gellid ehangu hyn yn gystadleuaeth ryngwladol drwy wahodd gwledydd partner i gymryd rhan. Byddai'r pwyslais ar ddod â chenhedloedd ynghyd o dan faner o undod cyfeillgar a chynorthwyo pobl ifanc i ymadfer o waddol economaidd a chymdeithasol niweidiol cyfnod clo'r coronafeirws. Byddai hyn yn cyd-fynd â neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, sy'n unigryw i Gymru ac sydd wedi ei rhannu'n flynyddol ers 98 o flynyddoedd gan bobl ifanc Cymru gyda phobl ifanc ledled y byd. Gellid archwilio twrnamaint cymharol ar gyfer pêl-droed gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru o ystyried poblogrwydd y gêm mewn rhanbarthau partner sy'n cael eu blaenoriaethu, fel Gwlad y Basg, Llydaw a'r Fflandrys, a'r apêl cyffredinol byd-eang.

Nid yn unig byddai cyfres o brosiectau pwysig o'r fath yn amlygu Cymru ar y llwyfan cysylltiadau rhyngwladol, byddent hefyd yn creu corff o ymchwil a gweithdrefnau y gallai rhanddeiliaid fanteisio arnynt.

## 5.9 Cofiwch Dîm Prydain Fawr

Mae'n ffaith fod gan genhedloedd Prydain gydberthynas gymharol gymhleth o ran gwleidyddiaeth a chwaraeon. Mae Cymru, er enghraifft, weithiau'n chwarae o dan faner y Deyrnas Unedig, ac weithiau o dan y Ddraig Goch, ac weithiau ar yr un tîm (mae tîm criced 'Lloegr' yn enghraifft dda). Dylid ymestyn yr agwedd hon tuag at ddiplomyddiaeth chwaraeon. Gallai Cymru ddatblygu ei strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon ei hun mewn trafodaeth gydag UK Sport, yr Adran Masnach Ryngwladol a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Datblygu Rhyngwladol.

Fel y dywedodd Elizabeth Turner, gweithwraig broffesiynol ym maes masnach ryngwladol a rhwyfwraig gystadleuol, yn ystod y gwaith maes:

*Mae'n bwysig bod Cymru'n manteisio ar arbenigedd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, yr Adran Masnach Ryngwladol, yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel bod modd iddi wneud defnydd mwy strategol o adnoddau ac arbenigedd San Steffan a rhwydwaith byd-eang y Deyrnas Unedig o weithwyr diplomyddol a datblygu rhyngwladol proffesiynol.*

Dylid ymestyn gwybodaeth, adnoddau, partneriaethau ac ati i Lundain, Belffast a Chaeredin. Byddai hyn yn arbennig o bwysig, er enghraifft, pe bai gan Gymru uchelgais o fod yn rhanddeiliad allweddol mewn cais ar y cyd rhwng Prydain ac Iwerddon i gynnal Cwpan y Byd FIFA yn 2030.

Gallai chwaraeon hefyd ffurfio llwybr y gallai Cymru ei ddefnyddio i ymgysylltu â blaenoriaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig a dylanwadu ar feysydd o ddiddordeb strategol, wrth i'r Deyrnas Unedig negodi ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd, fel trafodaethau ar Gytundebau Masnach Rydd newydd.

Er enghraifft, gyda phenderfyniad diweddar y Deyrnas Unedig i ail-agor Uchel Gomisiynau yn y Môr Tawel, a chytundeb dilynol gyda Seland Newydd yn 2019 i gyd-leoli diplomyddion Prydeinig gyda diplomyddion Seland Newydd yn Tonga a Vanuatu[70], gallai Cymru gynnig ei sgiliau chwaraeon i helpu i ddyfnhau'r gydberthynas hon. Gan fagu ysbrydoliaeth o ymagwedd ddyfeisgar Seland Newydd tuag at ddiplomyddiaeth chwaraeon, gallai Cymru weithio gyda'r Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Datblygu Rhyngwladol a'r Adran Masnach Ryngwladol i gynnig cyfres o gemau rygbi neu bêl-droed ieuenctid rhyngwladol i'w cynnal gan genhedloedd ynysoedd y Môr Tawel. Gellid cynnal digwyddiadau cefnogol i gysylltu â'r gemau, gan ddarparu llwyfan ar gyfer taith fasnach ranbarthol neu fforwm hinsawdd a chynaliadwyedd wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru drwy'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Datblygu Rhyngwladol. Wedi'r cwbl, gallai Cymru a chenhedloedd ar draws y rhanbarth fanteisio'n sylweddol o arddangos eu pobl ifanc, eu diwylliant, eu hiaith, eu celfyddydau a'u medrusrwydd chwaraeon i'r byd drwy 'Gyfres Rygbi Saith Bob Ochr a Chynaliadwyedd Ieuenctid'. Yn ei thro, byddai'r fenter hon yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i broffil byd-eang Cymru, ac yn cynnig cyswllt cyson gyda'i fframwaith polisi cartref o safon fyd-eang sy'n cefnogi ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.***



Enillodd Y Farwnes Tanni Grey-Thompson bedair medal aur yn y Gemau Paralympaidd yn Sydney yn 2000 gan ennill ei phlwyf fel yr athletwraig trac mwyaf llwyddiannus yn hanes campau Paralympaidd. Sydney, Awstralia. Llun: Andrew Cowie

# Adran 6
# Y chwiban olaf

Nod yr astudiaeth hon oedd archwilio, adolygu a phrofi dichonoldeb strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i Gymru. Ni ddaeth ein tîm ymchwil ar draws unrhyw wrthwynebiad i'r cysyniad hwn, ac felly gellir dod i'r casgliad diamwys bod strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon i Gymru yn ddichonadwy. Er mwyn troi'r weledigaeth hon yn realiti, mae angen parhau â'r trafodaethau y mae'r prosiect hwn wedi'u cychwyn, ffurfio gweithgor, ac ymrwymo i'r syniad.

O'r corff hwn o ymchwil, mae'n amlwg bod chwaraeon Cymru eisoes yn codi proffil y genedl ar y cae ac oddi arno, ledled y byd. Mae chwaraewyr, gweinyddwyr, hyfforddwyr a thimau yn rhan hanfodol o frand rhyngwladol Cymru. Dangosodd ein hymchwil eu bod eisoes yn hyrwyddo'r genedl, yn helpu i ddatgloi potensial economaidd, yn ymgysylltu mewn fforymau amlochrog, yn meithrin ymddiriedaeth ac ewyllys da, yn cryfhau hen gynghreiriau, ac yn creu cydberthnasau newydd o Buenos Aires i Baris i'r Arfordir Aur, Awstralia.

Mae'r amseru hwn ar gyfer dychmygu dyfodol gwahanol ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol, chwaraeon a Chymru yn ddelfrydol. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych y tu hwnt i Gymru a gwledydd Prydain, fel y gwelir yn *Strategaeth Ryngwladol 2020*, gweledigaeth Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan, ac yn yr hyder sydd wedi'i feithrin dros 22 mlynedd o ddatganoli. Mae tîm o weithredwyr anwladwriaethol – o gyrff anllywodraethol, i academyddion, i arweinwyr busnes a dinasyddion amlwg – hefyd yn creu llwybrau a rhwydweithiau rhyngwladol.

Ynghyd â ffurfiau eraill o gysylltiadau diwylliannol, mae gweithgarwch chwaraeon rhyngwladol yn helpu i feithrin ymddiriedaeth, cydnabyddiaeth a hoffter rhwng cenhedloedd. Wrth i'r Deyrnas Unedig negodi ei pherthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd, ac wrth i ni ymgyfarwyddo â byd ar ôl Covid, mae'r ffurf 'ysgafnach' hon ar ddiplomyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol yn cynnig mecanwaith â chost cymharol isel ond amlygrwydd cymharol uchel, y gellir trosoli partneriaethau rhyngwladol drwyddo, sy'n hanfodol er mwyn twf.

Mae Cymru'n genedl fach sydd ag ôl-troed chwaraeon mawr iawn. Mae ganddi'r chwaraewyr, yr hyfforddwyr a'r sêr. Mae ganddi'r ewyllys, yr egni creadigol, a'r pendantrwydd i fod yn wahanol. Mae ganddi hefyd eiriolwyr, ar bob lefel yn y gymdeithas, o weinidogion y llywodraeth i academyddion ac athrawon ymarfer corff mewn ysgolion cynradd. Dim ond nawdd, capten, a chynllun gêm sydd eu hangen ar y Tîm. Ac felly, gefnogwyr chwaraeon, gyda hynny rydym yn eich gadael gydag un dyfyniad olaf: gadewch i'r gemau ddechrau!




Anna Hursey, Pencampwr Tenis Bwrdd Cymru, a'r athletwr ifancaf erioed i gystadlu ar y lefel uchaf yng Ngemau'r Gymanwlad - cynrychiolodd Gymru yng Ngemau'r Arfordir Aur yn Awstralia pan oedd ond yn 11 oed. Yn 2020 daeth yn un o Bencampwyr Ifanc 'Chwaraeon o Blaid Fframwaith ar Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig' (UNFCCC). Mae hi'n treulio llawer o'r flwyddyn yn Tsieina yn hyfforddi amser llawn. Llun: Christian Bruna/EPA-EFE/Shutterstock



Cymru v Wrwgwai. Rugby World Cup, Kumamoto, Japan, Hydref 2019. Llun: Distinctive Shots

# Troednodiadau

1 O ran geirfa, defnyddir 'llywodraeth ranbarthol' a'r ffurf fyrrach 'rhanbarth' yn yr adroddiad hwn i gyfleu ystod eang o awdurdodau gweinyddol sy'n bodoli ar y lefel o dan y genedl-wladwriaeth.

2 Jackson, T. (2018). Paradiplomacy and political geography: The geopolitics of substate regional diplomacy. Geography Compass, 12(2), e12357.

3 https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/baromedr_cymell_tawel_cymru_2018.pdf

4 https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/international_showcasing_strategy_-_welsh_final-111018_v2.pdf

5 Cooper, A. F., a Frechette, L. (2015). Celebrity diplomacy. Routledge.

6 https://www.britishcouncil.org/research-policy-insight/policy-reports/sources-soft-power

7 Rofe, J. S. (Ed.). (2018). Sport and diplomacy: Games within games. Gwasg Prifysgol Manceinion.

8 Murray, S. (2018). Sports diplomacy: Origins, theory and practice. Routledge.

9 Keech, Marc, a Houlihan, B. (1999) "Sport and the End of Apartheid", The Round Table: The Commonwealth Journal of International Affairs, Cyf. 88, Rhif 349, t. 109.

10 Strenk, A. (1980) "Diplomats in track suits: the role of sports in the foreign policy of the German Democratic Republic" Journal of Sport and Social Issues, Cyf. 4, Rhif 1, tt. 34-45.

11 McLaren, Richard H. 2016. "The Independent Person 2nd Report." Montréal: Asiantaeth Atal Camddefnyddio Cyffuriau y Byd. Cyrchwyd 28 Ionawr, 2020. https://www.wada-ama.org/sites/default/files/resources/files/mclaren_report_part_ii_2.pdf.

12 Newyddion ABC. 2013. Armstrong stripped of Tour titles, banned for life. Cyrchwyd 10 Chwefror, 2020. http://www.abc.net.au/news/2012-10-22/armstrong-stripped-of-tour-titles-banned-for-life/4327916

13 Marcks, Vic. 'Tears, lies and sandpaper: the week Australian cricket fell apart.' Cyrchwyd 13 Chwefror, 2020. https://www.theguardian.com/sport/blog/2018/mar/31/steve-smith-david-warner-darren-lehmann-ball-tampering-australia

14 Lim, S., 2019 "Air New Zealand launches fictitious airline 'Air All Blacks' in new safety video", The Drum [ar-lein]. 1 Awst 2019. Ar gael drwy: https://www.thedrum.com/news/2019/08/01/air-new-zealand-launches-fictitious-airline-air-all-blacks-new-safety-video

15 Jackson, S., Gilbert, M. a McLay, J. (2016) "Sports diplomacy: New Zealand's hardest soft power?" New Zealand International Review, Cyf. 41, Rhif. 2, Mawrth/Ebrill, tt. 2-5.

16 Brown, M., 2012 "Soccer: All Whites part of football diplomacy", New Zealand Herald, 26 Hydref 2012.

17 Mark, S. "Here's how to reset New Zealand's cultural diplomacy in the Pacific." Cyrchwyd 25 Chwefror 2020. https://theconversation.com/heres-how-to-reset-new-zealands-cultural-diplomacy-in-the-pacific-100454

18 Kirk, S. "Budget 2018: 'Pacific reset' will increase foreign affairs funding to $1b over four years." Cyrchwyd 25 Chwefror 2020. https://www.stuff.co.nz/national/politics/103738729/budget-2018-1b-for-foreign-affairs-massive-boost-to-pacific-aid-and-a-new-embassy

19 Mark, S. "Here's how to reset New Zealand's cultural diplomacy in the Pacific." Cyrchwyd 25 Chwefror 2020. https://theconversation.com/heres-how-to-reset-new-zealands-cultural-diplomacy-in-the-pacific-100454

20 Grix, J., a Lee, D. (2013). Soft power, sports mega-events and emerging states: The lure of the politics of attraction. Global society, 27(4), 521-536.

21 Murray, S. (2018). Sports diplomacy: origins, theory and practice. Routledge, t. 72.

22 Diplomyddiaeth Gyhoeddus y Swyddfa Dramor a Chymanwlad: Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 – Y Pwyllgor Materion Tramor, https://publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmselect/cmfaff/581/58107.htm

23 Qingmin, Z. (2013). Sports diplomacy: The Chinese experience and perspective. The Hague journal of diplomacy, 8(3-4), t. 229.

24 Biwro Materion Addysgol a Diwylliannol. "Sports Diplomacy", cyrchwyd 6 Chwefror, 2020. https://eca.state.gov/programs-initiatives/initiatives/sports-diplomacy

25 Ibid

26 Byrne, C. 2018. "Finding Australia's soft power." Cyrchwyd 25 Chwefror 2020. https://www.aspistrategist.org.au/finding-australias-soft-power/

27 Roberts, Martin (Ymgynghorydd, Diplomyddiaeth Chwaraeon), mewn trafodaeth â'r awdur, 30 Hydref, 2014.

28 Y rhain oedd Rob Tranter, Prif Ysgrifennydd Cynorthwyol, yr Adran Diplomyddiaeth Gyhoeddus a Chyfathrebu; Martin Roberts, Ymgynghorydd, Diplomyddiaeth Chwaraeon; Lisa Wright, Ysgrifennydd Cynorthwyol, Cangen Diplomyddiaeth Gyhoeddus; Lou Anderson, Cyfarwyddwr yr Adran Eiriolaeth a Digwyddiadau; a Kristopher Martin, Swyddog Diplomyddiaeth Gyhoeddus, yr Adran Eiriolaeth a Digwyddiadau.

29 Roberts, Martin (Ymgynghorydd, Diplomyddiaeth Chwaraeon), mewn trafodaeth â'r awdur, 30 Hydref, 2014.

30 Llywodraeth Awstralia. 2012. Papur Gwyn Awstralia yn y Ganrif Asiaidd. Canberra, ACT: Cymanwlad Awstralia.

31 Mae Peter Varghese, Ysgrifennydd yr Adran Materion Tramor a Masnach rhwng 2012 a 2016, hefyd yn haeddu ei grybwyll. Gwelwyd llawer o arloesi o ran diplomyddiaeth Awstralia yn ystod tymor Varghese fel Ysgrifennydd, yn enwedig o ran symud ffocws yr Adran Materion Tramor a Masnach o Asia a'r Môr Tawel i Gefnfor India a'r Môr Tawel. I Varghese, roedd chwaraeon yn ased diplomyddol nad oedd yn cael ei ddefnyddio ddigon, yn enwedig yng nghydberthnasau allweddol Awstralia fel y rhai gydag India – mae'r ddwy wlad yn rhannu diddordeb tanbaid mewn criced.

32 Murray, S. (2017). Sports diplomacy in the Australian context: theory into strategy. Politics & Policy, 45(5), t. 854.

33 Yn Gymraeg, y Tîm sy'n Ennill.

34 France Diplomatie. 2018. 'Sports Diplomacy.' Quai D'orsay. Cyrchwyd 6 Chwefror, 2020. https://www.diplomatie.gouv.fr/en/

35 Diplomydd profiadol sydd, yn ystod ei yrfa, wedi teithio o Banama i Fecsico, trwy Chile, Brasil, El Salvador (lle bu'n llysgennad), a'r Unol Daleithiau, lle bu'n gwasanaethu fel Conswl Cyffredinol ym Miami a Dirprwy Gonswl Cyffredinol yn Los Angeles.

36 Lebrun, Claire. 2018. 'Le « soft-power » du sport : un potentiel encore trop peu exploité ?'. Open Diplomacy. Cyrchwyd 6 Chwefror, 2020. http://www.open-diplomacy.eu/blog/le-soft-power-du-sport-un-potentiel-encore-trop-peu-exploite

37 https://en.unesco.org/mineps6/kazan-action-plan

38 Y Comisiwn Ewropeaidd (2018) "Commissioner Navracsics launches High-Level Groups on sport diplomacy and grassroots sport", Newyddion y Comisiwn Ewropeaidd [ar-lein]. Ar gael drwy https://ec.europa.eu/sport/news/2015/commissioner-navracsics-launches-high-level-groups-sport-diplomacy-and-grassroots-sport_en

39 Ibid.

40 Ariennir UK Sport gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a chronfa'r Loteri Genedlaethol. Cafwyd y ffigwr cyllideb hwn o Adroddiad Blynyddol 2019 UK Sport. https://www.uksport.gov.uk/resources/annual-reports

41 Llywodraeth y Deyrnas Unedig (dim dyddiad), Cwestiynau Cyffredin – UK Sport [ar-lein]. Ar gael drwy: https://www.uksport.gov.uk/about-us/faqs

42 Premier Skills: https://premierskillsenglish.britishcouncil.org/, Try Rugby: https://www.britishcouncil.org/society/sport/current-programmes/try-rugby, International Inspiration: https://www.britishcouncil.org/society/sport/current-programmes/international-inspiration

43 Gohebiaeth e-bost rhwng yr awduron a Jenny Scott. 12 Awst 2019.

44 Redeker, Robert. 2008. 'Sport as an opiate of international relations: the myth and illusion of sport as a tool of foreign diplomacy'. Sport in Society, 11(4): 494–500.

45 Johnes, M. (2005). A History of Sport in Wales. Gwasg Prifysgol Cymru.

46 Davies, J. (2007). Hanes Cymru. Penguin.

47 Ibid., t. 670.

48 Gweler, er enghraifft, Gareth Thomas v Homophobia: The Legacy, (2019), [rhaglen deledu] BBC Wales.

49 Anhysbys, (2018) "Hosting the Champions League Final netted Cardiff at least £45 million", WalesOnline, 2 Mehefin. Ar gael drwy https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/hosting-champions-league-final-netted-14735030

50 Anhysbys, (2016) "Thousands to cheer Ironman Wales triathletes in Tenby", Newyddion Ar-lein y BBC, 18 Medi. Ar gael drwy https://www.bbc.com/news/uk-wales-south-west-wales-37383772

51 Wathan, C. (2015) "Behind the scenes at Wales' pioneering UEFA coaching course with some of football's biggest names", WalesOnline, 30 Mai. Ar gael drwy https://www.walesonline.co.uk/sport/football/football-news/behind-scenes-wales-pioneering-uefa-9360283

52 Llywodraeth Cymru (2019), Arddangos busnesau a diwylliant Cymru yn Japan (Datganiad i'r Wasg). Ar gael drwy: https://llyw.cymru/arddangos-busnesau-diwylliant-cymru-yn-japan

53 Llywodraeth Cymru. 2019. Strategaeth Ryngwladol.

54 Ibid.

55 Napieralla, K. OBE (2019), sylw yn ystod grŵp ffocws yn Stadiwm Principality, Caerdydd ar 4 Mehefin 2019.

56 Mae oddeutu 7,000 o glybiau – gyda 2,000 ohonynt yn cydrannu… ond nid yw'r nifer hwn yn cynnwys clybiau hamdden na ffenomenau newydd fel e-chwaraeon.

57 Mae is-gyfrifon yn ffordd o addasu System y Cyfrifon Cenedlaethol (y fframweithiau y cytunir arnynt yn rhyngwladol ar sut i fesur gweithgarwch economaidd) i fodloni amgylchiadau ac anghenion gwahanol. Maent wedi'u cysylltu'n agos â'r brif system, ond nid ydynt wedi'u rhwymo i ddefnyddio'r union gysyniadau nac i gyfyngu eu hunain i ddata a fynegir yn nhermau ariannol.

58 British Council Cymru (2018), Strategaeth Arddangos Celfyddydau Cymru yn Rhyngwladol, t.7. Ar gael drwy https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/celfyddydau/strategaeth-arddangos-celfyddydau-cymru-yn-rhyngwladol

59 Gweler https://www.chwaraeon.cymru/cynnwys/elw-cymdeithasol-ar-fuddsoddiad-mewn-chwaraeon/

60 Ibid

61 Keane, L. et al. (2019) "Methods for quantifying the social and economic value of sport and active recreation: a critical review", Sport in Society, Cyf. 1, Rhif 26.

62 Fel tablau Mewnbwn-Allbwn (I-O), Gwerth Marchnadol Amcangyfrifedig (EMV), Modelu Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI), Modelu Iechyd (HM), ac Amcangyfrif o Werth Estynedig Goruchwyliaeth (SAVE).

63 Ibid

64 Keane, L. et al. (2019) "Methods for quantifying the social and economic value of sport and active recreation: a critical review", Sport in Society, Cyf. 1, Rhif 26.

65 Hocking, Brian. 2013. 'The ministry of foreign affairs and the national diplomatic system' yn Diplomacy in a Globalizing World: Theories and Practices, addaswyd gan Pauline Kerr a Geoff Wiseman, 123–140. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen, t. 123.

66

67 Llywodraeth Awstralia (2015), Strategaeth Diplomyddiaeth Chwaraeon 2030, t. 18. Ar gael drwy https://dfat.gov.au/about-us/publications/Documents/sports-diplomacy-2030.pdf

68 Byrne, C. (2019), Trafodaeth mewn cyfweliad gyda'r awdur ym Mhrifysgol Bond ar y broses ymgynghori ar gyfer strategaeth Diplomyddiaeth Chwaraeon Awstralia 2030, 25 Medi 2019.

69 Slater, M. (2014) "Tour de France Grand Depart in the UK was a success – report" 7 Medi 2019. Ar gael drwy https://www.bbc.com/sport/cycling/30323997

70 https://www.gov.uk/government/news/uk-and-new-zealand-agree-new-partnership-in-the-pacific

71 Mae'r Athro McCallister yn gyn-gapten pêl-droed Cymru ac yn ffigwr amlwg mewn sawl corff chwaraeon, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, UK Sport, UEFA ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

© British Council 2020

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.